PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 418 | Ebrill 2019



Celf yn y Borth t.6



Cadeirio Emyr t.12



Matthew yn ysbrydoli t.5



Pŵer Penrhyn o Ysgol Penrhyn-coch ddaeth yn gyntaf o blith saith ysgol yng nghystadleuaeth Grŵp Dawnsio Hip-hop/Stryd/Disgo Bl 6 ac iau. Pob hwyl ym Mae Caerdydd!

Llun: Elen Mair Williams

# Ar y ffordd i Fae Caedydd



Erin Hesden Kenny

**Ysgol Rhydypennau**
Llongyfarchiadau mawr i Erin Hesden-Kenny (dawnsio unigol), Y Parti Unsain a'r parti Cerdd Dant am lwyddo i ennill a sicrhau lle haeddiannol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mae Caerdydd yn ystod hanner tymor fis Mai. Pob hwyl iddynt. Gweler hefyd t.9



Ar y ffordd i Gaerdydd! Y Parti Unsain a'r Parti Cerdd Dant

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Edwards**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg,
Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

## Rhifyn Mai Deunydd i law: Mai 3 Dyddiad cyhoeddi: Mai 15

**EBRILL 13 - MEHEFIN 13** Arddangosfa Ar yr ymyl gan Celf yn y Borth yn Oriel 2 Canolfan y Celfyddydau. Agoriad gan Mary Lloyd Jones nos Iau 18 Ebrill am 6.00

**EBRILL 17** Nos Fercher Gareth John Bale a Theatrau RhCT yn cyflwyno Dau (Jim Cartwright) am 7.30 £12 (£10)

**EBRILL 17** Nos Fercher Cyngerdd gan Gôr Mizoram yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth am 7.00.

**EBRILL 19** Bore Gwener y Groglith Oedfa unedig Eglwysi Cymraeg Aberystwyth yng Nghapel y Morfa am 10.00

**EBRILL 20** Nos Sadwrn Meilyr Jones – Bitw DJ Sgilti yn Neuadd Goffa Tal-y-bont am 7.00. Tocynnau: £10 o Siop y Pethe neu talu – arian parod yn unig – ar y drws. Dewch a chwrw eich hun.

**EBRILL 21** Nos Sul y Pasg Teyrnged i Tina Turner gan Pauline Kaytanua Wood yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch am 8.00. Yr elw i Larch/Arch Noa, Uned Gancr Plant Caerdydd

**EBRILL 24** Nos Fercher Pwyllgor Apêl Melindwr Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion 2020 yn Halfway, Pisgah am 7.30.

**EBRILL 27** Nos Sadwrn OPRA Cymru yn cyflwyno Fidelio yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30 £20 (£18)

**EBRILL 29** Dydd Llun 29 Dosbarth Lingotot arbennig i godi arian at Eisteddfod Genedlaethol 2020 yn Neuadd Rhydypennau, Bow Street, o 1:30-2:30 yp

**EBRILL 30** Nos Fawrth Gweithdy i gychwyn creu gwefannau newyddion lleol gogledd Ceredigion yn Arad Goch, Stryd y Baddon, Aberystwyth am 7.30.

**EBRILL 30** Dydd Mawrth Ysgolion Ceredigion yn ailagor ar ôl gwyliau'r Pasg

**MAI 1** Nos Fercher Eisteddfod Calan Mai Aberystwyth ym Morlan am 4.30

**MAI 1** Nos Fercher Gwyl Ddrama Gogledd Ceredigion yn Neuadd Goffa Tal-y-bont am 7.30.

**MAI 4** Nos Sadwrn Aduniad Ysgol Gyfun Penweddig 1976-1981/83 Yn Llety Parc, am 7.00 Manylion cyswllt: Nigel Roberts 07964846097 Ruth Jên: ruthjen@btinternet.com

**MAI 7** Nos Fawrth Gŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 7.30 - Doli Micstiyrs – Adolff; Llanystumdwy - Pry Yn Y Pren; Licris Olsorts - Y Fainc Gweler t.

**MAI 9** Nos Iau Gwaith lledr Elin Angharad - Merched y Wawr Penrhyn-coch yn Neuadd y Penrhyn am 7.30

**MAI 11** Bore Sadwrn Ffair Calan Mai yn Neuadd Rhydypennau am 11.00. Stondinau, barbeciw, adloniant. Croeso i bawb.

**MAI 12** Dydd Sul Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion ym Methel, Aberystwyth am 10.00 a 5.30 Arweinydd: Geraint Roberts, Prestatyn

**MAI 12 – 18** Wythnos Cymorth Cristnogol

**MAI 16** Nos Iau Lansio hunangofiant Beti Griffiths *Rho imi nerth* yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth am 6.30 Croeso cynnes i bawb

**MAI 16** Nos Iau Gŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion yn Neuadd Lisburne, Llanafan am 7.30.

**MAI 23** Nos Iau Datganiad Organ gan Tudur Jones FRCO,Tywyn, yn Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth am 7.00 o'r gloch. Tocynnau'n £5 oddi wrth Rhiannon neu Ann (01970 615409 / 626987) neu wrth y drws ar y noson. Holl elw'r noson yn mynd at Apêl Madagascar.

**MAI 25** Nos Sadwrn Tudur Wyn, Daf Jones ac Emma Maria gyda Glan Davies yn arwain yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth am 8.00. Tocynnau yn £10 ac ar gael mewn rhai wythnosau. Rhif cyfyngedig o docynnau fydd ar gael, felly cyntaf i'r felin fydd hi! Yr elw at Apêl Aberystwyth a'r Cylch ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.

**MEHEFIN 8** Dydd Sadwrn Taith flynyddol Cymdeithas y Penrhyn i ardal Caerfyrddin dan ofal Peter Hughes Griffiths. Manylion gan ac enwau i Ceris Gruffudd **SYLWER AR Y NEWID DYDDIAD**

**MEHEFIN 29** Prynhawn Sadwrn Te hufen a mefus Eglwys Sant Ioan rhwng 3.00 a 5.00.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Mawrth 2019

**£25** (Rhif 115 ) Margaret Williams, Bryn Golau, Llandre

**£15** (Rhif 101 ) Gwynfryn Evans, Y Ddol, Llandre

**£10** (Rhif 244 ) Bryn Lloyd, Cwm Eithin, Rhiwbina

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tim dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Mawrth 20

## 30 MLYNEDD YN OL



Y Piod yn dathlu eu buddugoliaeth wedi'r gêm. Roedd y Piod wedi ennill Cwpan Cynghrair Chwaraeon Aberystwyth drwy guro Pontrhydfendigaid o dsir gôl i ddim. (O Dincer Ebrill 1989) Diolch i Gwynant Phillips am yr enwau. Rhes cefn chwith i'r dde: David Ricketts, (y diweddar ) Tim James, Barry Williams, Chris Howard. Ffrynt: Ian Adams, Roy Jones, George Nicholson, Paul James, Roland Rees, Rhodri Morgan.

**Casglu gwastraff**

Dros gyfnod y Pasg, mae Cyngor Sir Ceredigion yn bwriadu darparu casgliadau gwastraff ar y diwrnod casglu arferol gan gynnwys Dydd Gwener y Groglith a Dydd Llun y Pasg.

**Rihyrsals Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion**

Ebrill 17 Mae y rihyrsal hon wedi ei chanslo oherwydd cyngerdd yng Nghapel y Morfa

Ebrill 30 Nos Fawrth Bethel, Tal-y-bont am 7.00

Mai 8 Nos Fercher Bethel, Aberystwyth am 7.00

Cymanfa

Mai 12 Dydd Sul Bethel Aberystwyth

10.00 Oedfa'r plant ac ieuenctid

5.30 Arweinydd: Geraint Roberts, Prestatyn

**Cymdeithas Gwenynwyr Cymraeg Ceredigion**

*Ydych chi eisiau dysgu sut i gadw gwenyn?* Bwriedir cynnal gwers neu ddwy yn ardal Capel Seion ym mis Mai ar gyfer rhai sydd â diddordeb mewn dechrau gofalu am wenyn mêl. Bydd croeso cynnes i bawb o bob oed i ddod yn rhad ac ddim ! Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Lewis Griffith (01970 624881) neu Wil Griffiths (01970 623334).

**Gweithdy i gychwyn creu eich gwefan fro**

Oes 'da chi stori? Beth am fideo neu luniau o weithgareddau eich clwb neu gymdeithas? Mae croeso i chi ddod i daflu syniadau i'r crochan, er mwyn creu gwefan newyddion lleol ar gyfer yr ardal hon.

*Pryd a ble?*

Nos Fawrth 30 Ebrill, 7.30pm – Arad Goch, Aberystwyth

I gael rhagor o wybodaeth, cynnig enwau neu ddweud eich bod am ddod, cysylltwch â Dan, Ysgogydd Bro360: daniel@bro360.cymru neu 01570 423529.

**I'w osod ar rent**

Tŷ Capel y Garn,
Bow Street
4 ystafell wely
Am ragor o fanylion cysyllter
â **lettings@aledellis.com**
**Ffôn** 01970625070

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**www.morlan.cymru**
**01970 617996**
**morlan.aber @gmail.com**
**morlan.cymru**

**Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH**
**01970-617996;**
**post@morlan.cymru**

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

**Y Tincer drwy'r Post**

Mae gan y Tincer drefnyddion newydd i'r gwasanaeth Y Tincer drwy'r Post. O hyn ymlaen y brodyr Edryd ac Euros Evans (33 Maes Afallen, Bow Street SY25 5BL) fydd yng ngofal y gwasanaeth – diolch iddynt am gytuno. Magwyd y brodyr ym Methesda, Gwynedd ond mae cysylltiadau teuluol ganddynt â Than-y-groes, Ceredigion a Bow Street. Gellir tanysgrifio i'w dderbyn trwy'r post am £18 y flwyddyn (£7 drwy ebost)– mae prisiau uwch os am ei dderbyn dramor. Pob hwyl iddynt ar y gwaith.

## Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ


01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
*Ar agor*
*Llun-Sadwrn*
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475


## ADOLYGIAD

**Alun Davies.**
***Ar Drywydd Llofrudd*. Y Lolfa**
**256t. £8.99**




Mae'r teitl yn arwain yn unionsyth at bwnc y nofel ac yn cyfleu mai nofel ddtectif geir. Mae'r nofel yn gyfoes ac wedi'i lleoli yn ardal Aberystwyth ac yn gorwedd yn gadarn yn y dull sgandi-noir. Mae'r genre sgandi-noir wedi dod yn boblogaidd yn y blynyddoedd diwethaf i ddarllenwyr a gwylwyr. Dywed yr awdur ei hun mai ei "brif fwriad oedd ysgrifennu nofel dditectif dda, 'roeddwn i am iddi fod yn gyffrous, yn dywyll ac yn hoelio'r sylw tan y dudalen olaf."

Cyn mentro i grombil y nofel mae'n rhaid bod rhywun wedi prynu hi yn y lle cyntaf ac nid yw'r nofel yn sefyll allan ar silff lyfrau. 'Roeddwn i yn chwilio amdani yn bwrpasol oherwydd y cysylltiadau ag Aberystwyth ond ar yr olwg gyntaf ni fyddwn wedi cydio ynddi. Ond wedi edrych yn fanwl ar y clawr gwelir tirlun a thonnau'r môr sydd efallai yn fygythiol a hefyd amlinelliad o wyneb merch ifanc yn plethu i'r cefndir. Hwn yn sicr yn gosod abwyd i barhau.

Sylfaen y nofel yw'r ddau dditectif, sef Taliesin ac M.J. a'r ffordd mae'r ddau yn ymateb i'r sefyllfaoedd yn y stori a'r modd y mae'r ddau yn cydweithio. Mae un yn ifanc a brwdfrydig a'r llall ar ddiwedd ei yrfa ac yn amlwg wedi gweld y cyfan o'r blaen a rhagfarnau yn amlwg yn ystod y stori. Heb ddatgelu'r stori mewn unrhyw ffordd mae'r achos llofruddiaeth yn deillio o ddiflaniad gwraig ifanc yn Aberystwyth ac yna ceir trobwynt erchyll sy'n newid yr achos a'r canlyniadau.

Mae patrwm y nofel yn dilyn drwyddi draw sef pennod am yn ail o safbwynt y prif gymeriadau. Rhaid cyfaddef bod y dull o ysgrifennu a'r rhediad amserol yn gwneud i rywun droi'r dudalen ac awchu am fwy ac edrych ymlaen i'r digwyddiad nesaf ond ar yr un pryd braidd yn undonnog gan ddilyn yr un patrwm o ysgrifennu. Y ddau gymeriad yn gredadwy a realistig ac yn ennyn cydymdeimlad ac atgasedd wrth i'r achos ddatblygu.

Mae'r ieithwedd yn hawdd ei darllen, y dafodiaith yn naturiol ac yn gyfoethog o ran disgrifiadau sy'n deffro dychymyg y darllenwr yn hytrach na disgrifio'n fanwl. "Dwi'n gadael y car ac yn anelu at y babell fforensig, y cerrig yn llithro ac yn crafu yn erbyn ei gilydd o dan draed wrth i mi groesi'r traeth." Erbyn diwedd y frawddeg 'roeddwn I'n gweld y traeth, yn dychmygu cerdded ar y cerrig anwastad a dychmygu beth fyddwn i'n canfod yn y babell.

Mae'r plot yn gredadwy er nad yw unrhyw un eisiau cyfaddef y gall digwyddiadau erchyll ddigwydd yng nghefn gwlad Cymru. Mae'r awdur hefyd wedi cadw'n onest i leoliadau Aberystwyth, rhywbeth na welwyd yn "Y Gwyll" pan fyddai ceir yr heddlu yn gyrru ar garlam o'r swyddfa a phob un lleol yn gwybod nad oedd pen i'r ffordd honno. Mae'r cymeriadau yn gredadwy ond fel rhywun sydd wedi bod yn ffyddlon i Morse ac Endeavour 'rwy'n clywed brawddegau yn y nofel hon dwi wedi dod ar eu traws ar y teledu a hynny yn gwanhau ychydig o'r profiad i fi.

Mae Jon Gower wedi disgrifio'r awdur fel "llais newydd hyderus ym myd sgrifennu ditectif Cymraeg," Mi fyddwn yn argymell i unrhyw un ddarllen y nofel ddiddorol hon ac mae Alun Davies wedi cyrraedd ei nôd o ysgrifennu nofel,"gafaelgar, tywyll a chyfrwys."

**Gaenor Mai Jones, Pentre'r-eglwys. adolygiad buddugol Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch**

# Cyfeillion Cerddorion Ifanc Ceredigion

**Mewn ymateb i ddatganiad i'r wasg Cyngor Ceredigion ynghylch dyfodol y Gwasanaeth Cerdd ar 4 Ebrill 2019 (https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/newyddion/ystyried-ffyrdd-newydd-o- ddarparu-r-gwasanaeth-cerdd/) dywedodd llefarydd ar ran Cyfeillion Cerddorion Ifanc Ceredigion:**

"Mae Cyngor Ceredigion wedi cyfaddef ei fod yn cynllunio lleihad cyffredinol o 68% yng nghyllid craidd ei Wasanaeth Cerdd, fel y datgelwyd yn gywir gan Gyfeillion Cerddorion Ifanc Ceredigion bythefnos yn ôl.

"Dylid trin yn ofalus honiad Arweinyddiaeth y Cyngor mai ond 32.4% o doriad cyllid fydd mewn gwirionedd, o ystyried yr incwm ychwanegol o wersi. Nid oes ganddynt syniad faint o blant fydd yn gallu talu am wersi, corau ac ensemblau o fis Medi, a hynny ar raddfa brisio allai, i'r rhan fwyaf, fod lawer yn uwch na'r hyn a delir ar hyn o bryd.

"Y symudiad hwn oddi wrth gyllid craidd i fynnu bod rhieni yn talu mwy sydd wrth wraidd pryderon pobl yng Ngheredigion; mae'r cynllun yn elitaidd ac mae perygl i'r gwasanaeth fod yn anghynaliadwy.

"Hyd yn oed o ddilyn amcangyfrif mwyaf optimistig y Cyngor, mae Gwasanaeth Cerdd Ceredigion yn wynebu toriad cyllid anferth, ar adeg pan fo Treth y Cyngor wedi ei gynyddu o 7%, a hynny, mae'n ymddangos, er mwyn gallu amddiffyn y ddarpariaeth addysg."

# MADOG, DEWI, CEFN-LLWYD

**Suliau Madog**
**2.00**
*Ebrill*
21 10.00 Sul y Pasg Oedfa'r ofalaeth yn y Garn Gweinidog
28 Rhidian Griffiths

*Mai*
5
12 10.00 a 5.30 Cymanfa Ganu ym Methel, Aberystwyth
19 Bugail
26 Terry Edwards

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn yn fawr iawn â theulu a chysylltiadau y diweddar Gareth Jones, Cefn-llwyd. Un o blant yr ardal a oedd bob amser yn barod ei gymwynas
Cydymdeimlwn â Hywel Evans, Elonwy, Capel Dewi ar golli brawd – Bryan Evans o Lanafan;
â Mrs Myfanwy Pugh, Fron Ddewi, Capel Dewi ar golli brawd – John Jones o New Cross;
â Eirwyn Jones, Felin Hen ar golli cefnder – Gareth Jones, Cefn-llwyd.

**Croeso Gartref**
Croeso adref i Gwyneira Morris, Y Fronfraith, ar ôl treulio cyfnod hir yn ysbytai Bron-glais a Threforus. Dymunwn adferiad llwyr a buan i Gwyneira.
Dymuna Gwyneira ddiolch am y cardiau, ymweliadau, y gofal a'r caredigrwydd dderbyniodd yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion at ei phriod David John Morris gan obeithio ei fod yn mwynhau gwell iechyd.

**Erwyd yn dathlu!**
I nodi achlysur ei ben blwydd yn 70 oed, penderfynodd Erwyd Howells, ar ran ei deulu, gyflwyno rhodd i Ward Angharad, Ysbyty Bron-glais, er cof am ei ffrind a'i gymydog o 40 mlynedd, Dr David Lewis, Paediatregydd Ymgynghorol ym Mron-glais. Ychwanegwyd £220 at y rhodd gan gyfeillion a theulu Erwyd yn ei barti pen blwydd, gan godi'r cyfanswm i £720. Dywedodd Paul Harries, Arbenigwr Chwarae Iechyd: "Mae'r staff ar Ward Angharad yn ddiolchgar iawn i Erwyd Howells, ei ffrindiau a'i deulu, am y rhodd caredig er cof am Dr David Lewis. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i'n helpu i gyfoethogi'r gofal a ddarparwn ymhellach i gleifion a'u teuluoedd, yn dilyn yr egwyddorion teuluol a hyrwyddodd Dr Lewis bob amser. "



**Matthew yn ceisio ysbrydoli ei deulu i'w ymuno ar daith FFIT Cymru**
Mae gŵr o Gapel Dewi yn gobeithio y bydd ei daith i wella'i iechyd ar gyfres deledu FFIT Cymru yn ysbrydoli ei deulu i ddilyn ei esiampl. Fe fydd Matthew Jones, Lodj Gelli Angharad, sy'n 30 oed, yn croesawu'r camerâu teledu i'w fywyd dros y saith wythnos nesaf, ar ôl iddo gael ei ddewis fel un o arweinwyr yn y gyfres boblogaidd S4C, sy'n cael ei ddangos bob nos Fawrth am 8.00yh.
Drwy gydol y gyfres, bydd y pump yn derbyn cymorth a chyngor tri arbenigwr iechyd a ffitrwydd, wrth iddynt geisio colli pwysau a newid darlun eu hiechyd.

Mae Mathew yn wreiddiol o Bont-y-pŵl ond bellach yn byw yng Nghapel Dewi, ac yn gweithio dros Blaid Cymru yn y dref. Mae gordewdra yn broblem yn nheulu Mathew, ac yntau'n 30 oed, mae e'n teimlo mai nawr yw'r amser i wneud rhywbeth am ei bwysau, gan obeithio ysbrydoli'r teulu i ymuno â fe ar y daith. Ond i wneud hynny, bydd yn rhaid iddo ddysgu ei hun i ddechrau mwynhau ymarfer corff.

Dywedodd Matthew: "Dyma beth dw i angen: rhywun i ddweud wrtha i dyma be ti'n neud, dyma pryd a dyma be ti'n bwyta. Dyna beth fi'n barod amdano ac yn barod i roi 110%.

"Dwi wedi gweld cymaint o ordewdra yn fy nheulu a'r effaith erchyll sydd wedi bod o ganlyniad i hynny ee clefyd y siwgr, canser a strocs. Dwi ddim eisiau i hwnna ddigwydd i fi". Roedd Matthew wedi colli pedwar pwys yn y rhaglen gyntaf – llongyfarchiadau iddo a dymuniadau gorau ar y daith!

Ymhlith y bobl eraill sydd wedi eu dewis fel arweinwyr eleni mae: dirprwy brifathro mewn ysgol gynradd ym Mhontypridd, David Roberts; paramedig dan hyfforddiant o Flaenau Ffestiniog, Emlyn Bailey; Mared Fôn Owen, sy'n astudio Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor; ac Annaly Jones o Gaerfyrddin, sy'n fam i dri bachgen,

Dywedodd dietegydd y gyfres, Sioned Quirke: "Dw i methu disgwyl dechrau gweithio efo'r pum arweinydd sydd gennym eleni. Mae'r pump yn dod o bob




gefndiroedd gwbl wahanol. Mae ganddyn nhw i gyd eu problemau unigol, ond mae hefyd ganddyn nhw straeon lyfli.

"Yr holl bwynt o FFIT Cymru yw annog yr arweinwyr i drawsnewid eu bywydau, gan obeithio bydd yr arweinwyr yn ysbrydoli'r genedl i ymuno â nhw. Fe welsom ni hynny'n digwydd y llynedd, a'r gobaith ydi gweld hyd yn oed fwy o bobl yn ymuno eleni."

Dychwelodd y rhaglen iechyd a thrawsnewid i'r sgrîn nos Fawrth 2 Ebrill, a bydd y gyfres eleni yn cael ei noddi gan Fitbit. Bydd FFIT Cymru yn dilyn pum aelod o'r cyhoedd wrth iddyn nhw geisio trawsnewid eu ffyrdd o fyw er gwell, drwy ddilyn arweiniad a chyngor gan dri arbenigwr y rhaglen; yr hyfforddwr personol Rae Carpenter, y dietegydd Sioned Quirke a'r seicolegydd Dr Ioan Rees. Bydd y pum arweinydd yn wynebu sawl her yn ystod y daith saith wythnos cyn cymryd rhan mewn her 5k parkrun ar ddiwedd eu siwrnai.

Bydd modd i chi ddilyn yr un cynlluniau ffitrwydd a bwyta drwy fynd i s4c.cymru/ffitcymru, tra bod hefyd croeso i chi ymuno â'r pum arweinydd i redeg yn y parkrun. I'ch helpu ar y ffordd, mae FFIT Cymru hefyd wedi lansio podlediad newydd sbon, i'ch tywys o'r soffa i 5k, wedi ei leisio gan Rae Carpenter ei hun. Dyma'r podlediad cyntaf o'i fath yn yr iaith Gymraeg.

Er mwyn dilyn cynlluniau'r gyfres ac i weld mwy am yr arweinwyr, ewch i s4c.cymru/ffitcymru neu dilynwch @FFITCymru ar Facebook, Twitter, ac Instagram.
**FFIT Cymru**

**Pob Nos Fawrth, 8.00 Isdeitlau Saesneg**
**Ar gael ar alw ar S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Cwmni Da ar gyfer S4C**

# Y BORTH

**Ar yr ymyl – Celf yn y Borth**

Bydd yr Arddangosfa Ar yr Ymyl yn Oriel 2, Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, yn cyflwyno gwaith newydd neu waith sydd heb ei weld o'r blaen gan aelodau Celf yn y Borth rhwng Ebrill 13 a Mehefin 13.

Mae Celf y Borth bellach yn ei drydydd flwyddyn ac mae wedi gweld cryn newid ers ei sefydlu yn Chwefror 2016 i hybu'r Borth ac artistiaid y Borth. Yn wreiddiol roedd yn grŵp o artistiaid gweledol oedd yn byw yn y Borth, Ynys-las a Glanwern, curadur, a gweinyddydd.

Yn ddiweddar ehangwyd y grŵp i wir adlewyrchu spectrwm cyfan yr ymdrech artistig Erbyn hyn cynrychiolir y gair llafar, drama a cherddoriaeth, gydag aelodau yn cyfranogi mewn perfformiadau lleol, gwyliau a digwyddiadau. Hefyd mae wedi ehangu ei gwmpas i gynnwys trefnu a hybu digwyddiadau cymunedol cynhwysol ac erbyn hyn mae gan y Borth Ŵyl Bwgan Brain flynyddol.

Eu hamcan yw cefnogi artistiaid a pherfformwyr sydd yn byw yn lleol nid yn unig trwy ddarparu cyfleoedd i arddangos neu berfformio ond hefyd creu cyfleoedd i rannu arbenigedd a dysgu sgiliau newydd. Credant fod y celfyddydau a diwylliant yn chwarae rhan bwysig yng nghyfoethogiad a llesiant y gymuned ehangach.

Yn ôl y curadur, Gwenllian Ashley, 'Mae'r Borth yn bentref hyll, hardd; lle rhyfeddol a dirgel ac mae'r gwaith yn adlewyrchu hyn. Mae rhai yn dianc i diroedd arall, eraill yn paentio realiti byw ar draeth storm ond mae ganddynt i gyd berthynas i'w pentref a'i olwg ar fywyd hynod / idiosyncratig.

Arddangosir gwaith gan Gabrielle Adamson, Bodge, Molly Brown, Lynne Dickens, Stuart Evans, Sadie Everade, Linda Henry, Neil Johnson, Peter Jones, Becky Knight, Sue Lee, Martine Ormerod, Ruth Packham, Marie Pierre, Sarah Pugh, Eve Smith and Jenny Williamson.


Bydd Mary Lloyd Jones yn ei hagor yn swyddogol nos Iau 18 Ebrill am 6.00.



Gabrielle Asamson



Molly Brown



Eve Smith




Neil Johnson



Peter Jones




Stuart Evans



Linda Henry



Becky Knight




**Siop yn y dref**
Mewn sioe ffasiynau gan Ysgol Penweddig yn ystod y mis roedd un o'r rhai oedd yn dangos eu dillad oedd Cari Evans sy'n wreiddiol o'r Borth. Fis Hydref agorodd Cai –sydd yn wyres i'r diweddar Barchg O.T. Evans – ei siop dillad merched - closet – yn Stryd y Farchnad ddiwedd mis Hydref.

Gwerthu carafannau oedd Cari ond penderfynodd fentro agor siop. Mae modd ei dilyn ar Instagram ac ar FB closetaberystwyth.

**Bryn Fôn a'r Borth**
Tra'n perfformio yn y Drwm, LLGC yn ddiweddar ar lansiad ei CD newydd Enfys soniodd Bryn Fôn am y cyfnod y bu'n byw yn y Borth mewn bwthyn ar rent tra'n gweithio efo Theatr Crwban. Dyna pryd yr ysgrifennodd y gan Tri o'r gloch. Mae'r gân yn un o'r rhai sydd ar y CD.




**Pwyllgor Apêl y Borth 2020**
Mae cronfa leol i godi arian ar gyfer Eisteddfod Ceredigion 2020 wedi'i sefydlu yn Y Borth dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Ray Quant. Ysgrifennydd pwyllgor apêl y pentref yw Catrin Pugh Jones a'r Trysorydd yw Esther Prytherch.



# Colofn Elin Jones

Mae'r gwanwyn yma o'r diwedd, ac mae'n braf croesawu tywydd mwy sefydlog.

Mae hi'n amser prysur unwaith eto i ffermwyr Ceredigion, gyda'r ŵyna ar waith. Yn anffodus, mae ansicrwydd yn parhau i ffermwyr sydd yn dibynnu ar fasnach Ewropeaidd. Roeddem ni gyd, erbyn hyn, yn gobeithio cael gwell syniad o ddyfodol y sector amaeth yn dilyn Brexit, ond mae hynny mor aneglur ag erioed.

Dros y misoedd diwethaf, rwy wedi parhau i gwrdd ag etholwyr trwy'r sir, ac i groesawu'r rheiny sydd wedi teithio i'n Senedd ym Mae Caerdydd.

Un grŵp o'r fath yw WASPI Ceredigion. Mae'r grŵp yn ymgyrchu yn erbyn anghysondeb ar gyfer menywod a anwyd yn yr 1950au oedd yn disgwyl ymddeol yn 60 oed. Mae rhai ohonynt wedi cael gwybod, gydag ond deunaw mis o rybudd, bod rhaid iddynt aros 6 mlynedd arall cyn ymddeol.

Ar ôl cwrdd gyda'r grŵp yn Aberystwyth ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched ychydig wythnosau yn ôl, llwyddwyd i gynnal dadl ar lawr y Cynulliad yr wythnos ganlynol, a chael cydsyniad y Cynulliad i gefnogi eu hymgyrch. Fe gytunodd y Cynulliad i alw ar Lywodraeth y DU i wneud trefniadau pensiwn gwladol trosiannol teg i bob menyw a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1951. Roedd presenoldeb cymaint o fenywod o Geredigion ac o ardaloedd eraill o Gymru yn sicr wedi dwyn perswâd ar Aelodau Cynulliad ynglŷn â pha mor bwysig oedd y mater.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd ymgynghoriad gan Ofcom ar argaeledd signal ffôn 5G, gyda'r sefydliad yn cynnig mynediad anghyfartal i signal ffôn symudol ledled y DU. Byddai hyn yn cynnig mwyafswm o 83% o argaeledd signal yng Nghymru, tra bod mwyafswm o 90% o argaeledd signal ffôn yn Lloegr.

Rwyf wedi codi'r mater gydag Ofcom, gan nodi bod gan Geredigion y signal ffôn a'r cyswllt band llydan gwaethaf ac arafaf yn y DU. Petai Ofcom yn ymrwymo i'r anghydraddoldeb yma, mae posibiliad real y bydd ein cymunedau eto yn cael eu gadael ar eu hôl.

Byddai ehangu'r signal y gallai rhwydweithiau 5G eu darparu yn caniatáu etholwyr i gael mynediad i gysylltiadau ar lefel cyflymder uchel ac yn sicrhau nad yw byw mewn ardal wledig yn anfanteisiol mewn byd modern, digidol.

Bwyty 'pop-yp' yn Boulders uwchben siop Nisa yn Y Borth fydd y gweithgaredd codi arian cyntaf a hynny nos Sul 21 Ebrill 2019 am 7yh. Rhodri Edwards, cyn berchennog a chef tafarn Y Ffarmers, fydd yn coginio a bydd adloniant gan gerddorion lleol. Mae tocynnau'n £20 am bryd tri-chwrs ac ar gael o Boulders / Esther 07968 593078 / Delyth 07929 345429.

Mae digwyddiad Hwyl yr Haf i deuluoedd yn cael ei drefnu ar gyfer dydd Sadwrn 15 Mehefin ac yn hwyrach yn y flwyddyn, mae Libanus yn bwriadu cynnal noson arbennig yn dangos ffilmiau Cymraeg yn y sinema.

Bydd cyfarfod nesa'r pwyllgor yn cael ei gynnal am 7.30yh nos Fawrth 16 Ebrill yn Neuadd Goffa Y Borth ac mae croeso i bawb.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Lisa Raw-Rees a Dafydd Brace Jones, Y Graig, ar enedigaeth merch fach Cadi - chwaer i Harri.

*Trefnwyr Angladdau*

***C T Evans***

Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.

**01970 820013**

*gwyn@ct-evans.co.uk*

**Brongenau,
Llandre,
Aberystwyth
SY24 5BS**

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Suliau Pen-llwyn**

*Ebrill*

**21** 10.00 Oedfa'r ofalaeth – y Garn
**28** 2.00 Judith Morris

*Mai*

**5** 5.00 (Oedfa Gymun) Dr. Watcyn James
**12** Y Gymanfa Ganu (Capel Bethel, Aberystwyth) 10 a 5.30 o'r gloch
**19** 10.00 Beti Griffiths
**26** 10.00 Oedfa Deulu, Dr. Watcyn James

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Aled a Cerys, Ystrad, ar enedigaeth Elsi Wynn ar yr 11eg o Fawrth, pob dymuniad da.

**Gwellhad buan**

Dymunwn wellhad buan i Mrs. Cynthia Evans, Cwmwythig, wedi iddi gael llawdriniaeth yn Ysbyty Casnewydd yn ddiweddar.

**Apêl Melindwr Eisteddfod 2020**

Cynhaliwyd noson Cawl a Chân lwyddiannus dros ben yn Neuadd Pen-llwyn ar y 15fed o Fawrth gan Apêl Melindwr i godi arian gogyfer â Eisteddfod Ceredigion 2020. Croesawyd a chyflwynwyd pawb yn gynnes gan Caryl Lewis, Cadeirydd yr Apêl. Cafwyd perfformiadau graenus gan blant Ysgol Pen-llwyn a ddiddanodd y gynulleidfa niferus gyda chymysgedd o eitemau offerynnol, caneuon a darnau llefaru. Dysgwyd y disgyblion yn fedrus iawn gan Miss Catryn Lawrence a Mrs Emma Davies. Paratowyd cawl blasus gan aelodau'r pwyllgor gan ddefnyddio cynnyrch a roddwyd at yr achos gan fusnesau lleol. Llywydd y noson oedd Berian Lewis, cyn ddirprwy brifathro Ysgol Pen-llwyn a dirprwy brifathro presennol Ysgol Gynradd Plas-crug. Cafwyd anerchiad twymgalon a diddorol tu hwnt gan Berian a diolchwyd iddo am ei rodd hael dros ben. Codwyd dros fil o bunnoedd ar gyfer yr achos. Hefyd, cafwyd cyfraniad gwerthfawr gan Gyngor Cymuned Melindwr gan y Cynghorydd Gareth Daniel. Talwyd y diolchiadau gan y Parchg Ifan Mason Davies.

Os hoffech ddysgu mwy am yr apêl, neu os hoffech fynychu'r pwyllgor nesaf yna chwiliwch am ein tudalen Gweplyfr (Facebook) – Eisteddfod Ceredigion-2020-Apêl Melindwr. Croeso mawr i aelodau newydd!









Lluniau: Arvid Parry-Jones

**Cyfarfod Merched y Wawr Melindwr**

Nos Fercher 20fed Mawrth derbyniodd deuddeg aelod wahoddiad gan aelodau cangen Llanfarian ymuno â nhw am noson hwylus. Daeth Bois y Rhedyn o Landdewibrefi i diddanu gan ganu 'n ddymunol gyda sgets ac ambell i joc. Diolch am noswaith o gymdeithasu a gwledda gan ein chwiorydd. Daeth llawer o wobrau raffl adref gyda ni i gofio am y noswaith.

Nos Fawrth 2 Ebrill gyda'r awr ymlaen a tymheredd gaeafol a pobman yn wyn, daeth llawer o aelodau i'n cyfarfod misol. Roedd datganiadau y Mudiad i hysbysebu cyn i'n llywydd Delyth Davies gyflwyno'n gwraig wadd am y noson. Mae Dr Angharad Fychan yn enw cyfarwydd i ddarllenwyr y Tincer. Graddiodd ym Mhrifysgol Aberystwyth ac mae'n gweithio ar Eiriadur Prifysgol Cymru yn y Ganolfan Astudiaethau Celtaidd ger y Llyfrgell Genedlaethol. Mae yn Gadeirydd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru CELIC sydd yn gwarchod enwau lleoedd Cymru. Datgloi Enwau Lleoedd oedd pwnc y noson a chawsom arddangosfa o luniau a mapiau i ddeall mwy am ystyr hen enwau. Cychwynwyd yng Nghwmerfin gydag adfeilion tŷ o'r enw Gochelgwympo am ei bod yn rhybuddio ni heb syrthio. Gyda sawl enghraifft tebyg i wneud â dŵr aeth ymlaen at Afon Rheidol a Nant Torri Wddwg yn disgrifio y pistyll yn disgyn 500 troedfedd o dan Bontarfynach. Mae tebygrwydd enwau yng Nghernyw, Ffrainc a Portiwgal o gysylltu cwymp dŵr fel Pyllau Uffern! Hefyd mae enghraifft Uffern Traeth Coch Môn a Gallt Uffern Aberdaron. Diolchwyd i Angharad gan Ann Jenkins gan dynnu sylw at lefydd yn ei hardal enedigol. Daeth y noson i ben gan fwynhau cymdeithasu dros baned wedi ei pharatoi gan Eirlys Davies ac Eirwen Sedgewick.

**Eglwys Dewi Sant**

Cynhaliwyd noson grempog ar nos Fawrth Ynyd, 5 Mawrth 2019 yn Neuadd yr Eglwys. Y cogyddion oedd y Parchg Heather Evans, Lowri Jones a Luned Jones a Llinos Jones a Tomos Gruffydd Jones Cafwyd adloniant hyfryd a swynol gan Barti Camddwr. Maent yn wreiddiol o ardal Lledrod a'r pentrefi cyfagos ac mae ganddynt leisiau a doniau arbennig. Yr arweinydd oedd Efan Williams a'r gyfeilyddes oedd Elizabeth James. Cawsom noson arbennig ym myd y crempogau a'r adloniant. Hefyd tynnwyd y raffl yn ystod y noson. Cyflwynwyd y parti gan Llinos Jones a diolchwyd gan Y Parchedig Heather Evans.

# LLANDRE

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Dafydd a Jane Raw-Rees ar ddod yn fam-gu a tad-cu eto. Mae Lisa a Dafydd wedi cael merch fach o'r enw Cadi – chwaer fach i Harri.

**Gwellhad buan**
Dymuniadau gorau a gwellhad buan i Alan Millichamp, Cae'r Arglwydd, sydd wedi cael cyfnod yn yr ysbyty.

**Croeso**
Croeso i Jan a Ji i Garth Gwyn, Lôn Glanfred ac i Paul a Trish i Cil y deri, Lôn Glanfred.


**Cylchgrawn newydd**
Llongyfarchiadau i Meinir Edwards a'i merch Efa Mared ar gyhoeddi rhifyn cyntaf eu cylchgrawn – Cara. Dymuniadau gorau iddynt eu dwy. Mae ar werth yn y siopau neu drwy gwales.com am £4.00

**Pen blwydd hapus**
Cyfarchion pen blwydd i Beti Williams, Greenbank, Lôn Glanfred ar gyrraedd oed arbennig ar Fawrth 31 eleni.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Gerwyn a Marianne Jones Powell, Leacroft, ar farwolaeth sydyn brawd Marianne, sef Gareth Jones, Cefn-llwyd.

Cydymdeimlwn â Wynne Melville Jones a'r teulu ar farwolaeth ei chwaer – Rosalind Williams yn ochrau Caerfyrddin.

Hefyd gydag Aled, Nia Peris, Lleucu a Gruffydd, Tyddyn Llwyn ar golli mam, mam yng nghfraith a mam-gu.




**Tiwtor Personol y Flwyddyn**
Llongyfarchiadau i'r Athro Andrew Evans, enillydd gwobr Tiwtor Personol y Flwyddyn ym Mhrifysgol Aberystwyth.



Llun: Elen Mair Williams

Dyfri a Heddwyn ap Ioan Cunningham; daeth Dyfri yn gyntaf ar y ddawns werin unigol i fechgyn bl 9 ac iau ac enillodd y ddau y ddawns stepio i grŵp dan 25 oed. Pob hwyl yng Nghaerdydd.



**Profiad i'w gofio**
Ychydig ddyddiau ar ôl dychwelyd o Disneyland cafodd Miriam Davies ei dewis o'r gynulleidfa i fynd ar y llwyfan gyda Ian McKellen yn ei noson undyn yng Nghanolfan y Celfyddydau – profiad i'w drysori!

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Dihangfa ffodus!**
Bydd dydd Mawrth Ebrill 2il yn aros yng nghof trigolion pen uchaf Cwmrheidol am byth. Cawsom ein cau i mewn heb yr un obaith o ddianc gan i tua pump can medr o bibellau a oedd wedi eu danfon i fyny i Bwa Drain ddod yn ôl i lawr heb yr un rhybudd yn y tywyllwch. Cawsom i gyd ddihangfa ffodus ac mae meddwl beth allai fod wedi digwydd yn echrydus.

**Sêr y dyfodol!**
Llongyfarchiadau i Seren a Rhydian Skipp ar eu perfformiadau yng nghyngerdd Ysgol Pen-llwyn noson cawl Apêl Melindwr Eisteddfod Ceredigion 2020. Bu Rhydian yn adrodd a Seren yn canu ac yn canu'r piano, ac mi gafwyd perfformiadau graenus gan y ddau. Llongyfarchiadau hefyd i Seren hefyd am ennill y gadair yn Eisteddfod Gŵyl Ddewi Ysgol Pen-llwyn. Sêr y dyfodol yn sicr!



Llun: James Salvona

# PENRHYN-COCH

**Suliau Horeb**

*Ebrill*

- **21** 10.00 Sul y Pasg Ymuno ym Methel, Aberystwyth Y Parchg Judith Morris
- **28** 10.00 Ymuno yn Noddfa, Bow Street am 10.00 Y Parchg Judith Morris

*Mai*

- **5** 2.30 Y Parchg John Roberts Oedfa gymun
- **12** 10.00 a 5.30 Cymanfa Ganu ym Methel, Aberystwyth
- **19** 2.30 Y Parchg Peter Thomas
- **26** 10.30 I'w drefnu

**Cinio Cymunedol Penrhyn-coch**

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 24 Ebrill, 8 a 22 Mai. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio. Aeth pris y cinio i fyny yn ddiweddar i £7.20.

**Diolch**

Hoffai Mair Evans, Glan Ceulan, ddiolch i aelodau'r teulu, cyfeillion a chymdogion am eu caredigrwydd yn ystod ac yn dilyn ei chyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall ei bod yn gwella.

**Priodasau**

Dymuniadau gorau i Sharon Lockyer, Tŷ Mawr, a Dai Lewis briodwyd yn Eglwys St Ioan ar 30 Mawrth ac i Gwenllian Mair a Steven Grimster, Ger-y-cwm briodwyd yn Horeb ar 6 Ebrill.

**Bedydd**

Croeso i aelod diweddaraf Eglwys St Ioan - sef Esyllt Dafydd - wedi iddi gael ei bedyddio arn Fawrth 17 yn ei gwisg prydferth, gyda'i chwaer fawr Nest, a'i rhieni Rhian a Meirion.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Dafydd Erwan a Sian Davies, Y Ddôl Fach, ar enedigaeth mab – Deio.

**Casglu y post**

Mae amser casglu y post o Swyddfa'r Bost Penrhyn-coch wedi newid. Bellach caiff ei gasglu am 4.00 dydd Llun i ddydd Gwener a 10.45 ar y Sadwrn.

**Croeso**

Croeso i drigolion newydd symudodd i Faesyrefail yn ddiweddar – Jay a Lucy Walker o Lanbadarn i rif 15 a James a Charlotte Davies i rif 19.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Cerys ac Aled ar enedigaeth merch fach – Elsi Wynn – ar Fawrth 11eg; wyres i Rhiannon Humphreys, Gelli.

**Croeso**

Croeso i Ian Ellis o Flaenau Ffestiniog sydd wedi symud i Glan Ceulan; mae Ian yn gweithio yn Adran Gyllid Mudiad Ysgolion Meithrin.

**Cymdeithas y Penrhyn**

Nos Sadwrn 16 Mawrth cynhaliwyd cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn ym mwyty Libanus y Borth. Y wraig wadd oedd Esyllt Sears. Magwyd Esyllt (nêe Dafydd) ym Mhenrhyn-coch ac yna Bow Street cyn symud i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd a gweithio yn Llundain. Mae hi nawr yn byw ym Mro Morgannwg gyda'i gŵr, 2 o blant, 1 ci a 2 iâr. Mae hi wedi bod yn perfformio stand-up ers blwyddyn a hanner ac wedi ysgrifennu ar gyfer S4C gydag Elis James a Siân Harries, ac ar raglenni comedi BBC Radio 4, The News Quiz a The Now Show. Mae hi hefyd yn ysgrifennu colofn fisol yn




Arwydd newydd godwyd yn ystod y mis

*Y Cymro.* Cafwyd pryd hynod flasus cyn gwrando ar Esyllt – ac roedd cyfle i holi cwesitiynau idd ar y diwedd. Yn ystod haf 2019 bydd hi ac Eleri Morgan o Dal-y-bont yn cynnal sioe yng Ngŵyl Caeredin.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Glenys a Peter Morgan, Lowri a Rhidian, Tir-y-dail, ar farwolaeth mam Peter ganol mis Mawrth.

**Penodiad**

Ddiwedd Mawrth cyhoeddwyd am benodiad Matthew Bishop fel Rheolwr Tîm Cyntaf Aberystwyth. Mae'n dychwelyd ar ôl bod yn Hyfforddwr Datblygu Hŷn Cenedlaethol .

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Paul a Sarah, Croeslan, Llandysul ar enedigaeth merch fach, Ffion Seren Thomas, ar Fawrth 20fed, wyres i Susan a Dennis Thomas, Glanceulan.





Llun: Elen Mair Williams

Logan a Lois yn casglu'r wobr ar ran Pŵer Penrhyn.

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Mair Evans, Glanceulan sydd wedi bod yn yr ysbyty. Hefyd, Julie James, Cae Mawr, sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty.

**Canlyniadau Pêl-droed**
**Tîm 1af**
*Ebrill*
9 Bangor 1 Penrhyn-coch 3
6 Trefyclo 1 Penrhyn-coch 1
*Mawrth*
30 Penrhyn-coch 3 Gresffordd 1
23 Rhuthun 2 Penrhyn-coch 0

2 gêm i chwarae -
*Ebrill*
13 Penrhyn-coch yn erbyn Treffynnon
27 Penrhyn-coch yn erbyn Conwy

Eilyddion
*Mawrth*
23 Penparcau 5 Penrhyn-coch 0

**Trydydd Tîm**
*Mawrth*
30 Curodd Penrhyn-coch Lan-non o 6 gôl i 0 gan ennill eu cynghrair

**Menywod**
*Ebrill*
9 Penrhyn-coch 0 Tregaron 11
1 gêm ar ôl - 13 Ebrill – Penrhyn-coch yn erbyn Llanbed



**Cylch Meithrin Trefeurig**
Plant Cylch Meithrin Trefeurig yn chwarae yn y gegin fwd ac yn plannu hadau llysiau yn y gwlâu wedi'u codi.

Lluniau: Beverley Hemmings





Gêm Bow Street v Penrhyn-coch



Penrhyn-coch (Trydydd tîm)

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 19 Mawrth yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd Richard Owen yn y gadair, a'r cynghorwyr Edwina Davies, Iona Davies, Gwenan Price, Delyth James, Tegwyn Lewis, Dai Mason ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mel Evans, Shân James a Kevin Jenkins. Materion yn codi: Maes Seilo – dywedodd y Cynghorydd Sir, Dai Mason, ei fod wedi cyfarfod gyda Russell Hughes-Pickering deirgwaith i drafod y tir y tu draw i Faes Seilo. Nawr roedd yn disgwyl cael cyfarfod gyda Neil Hinchcliffe, Pennaeth Ystadau'r Cyngor Sir, i drafod clirio'r tir ar gyfer parcio. Coed ar dir Tan-bryn, Penrhiwnewydd – wedi cael eu torri. Golau ym Mhenrhyn-coch – cadarnhaodd Dai Mason fod y Cyngor Sir yn bwriadu gwneud arolwg o'r lampau sy'n y pentref yn y flwyddyn ariannol newydd. Hefyd, roedd lamp newydd i gael ei chodi wrth y sgwâr, ger y man croesi i Ger-y-llan.

Materion eraill: Cae Chwarae Pen-bont – roedd yswiriant y cae wedi cynyddu'n ddiweddar, a daethai cais i ofyn i'r Cyngor Cymuned gynnwys y cae o fewn polisi yswiriant y Cyngor, gan y byddai hynny'n debycach o fod yn rhatach. Cytunwyd i edrych i mewn i hyn, ac i wneud yr un modd gydag yswiriant Cae Chwarae Penrhyn-coch. Pe byddai'r cynllun yn bosibl, gallai'r ddwy gymdeithas wedyn dalu'r gost ychwanegol yn ôl i'r Cyngor. Banc y Darren – dywedodd Iona Davies fod y ffordd heibio Bwlch-y-dderwen yn llawn coediach, a bod mawr angen ei chirio. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir. Glanceulan – tyllau yn y ffordd ger y fynedfa i'r stad a ger rhif 17. Y Faner – Eirian Reynolds i chwilio am faner newydd gan fod yr un bresennol yn dangos ôl traul.

# DOL-Y-BONT

**Gwellhad buan**
Anfonwn ein cofion at Doreen Haggar, Sycamores . Bu Doreen yn yr ysbyty yn ddiweddar yn derbyn llawdriniaeth ond da deall ei bod adre erbyn hyn ac yn teimlo'n well gobeithio.

Enillydd yng nghystadleuaeth y stori fer oedd Hedd (Llwyd) Edwards o Goleg Meirion-Dwyfor, Pwllheli. Mae Hedd yn ŵyr i Hefin a Rita Llwyd, gynt o Dal-y-bont. Mab i'w merch Siriol a'i gŵr ??. Ar hyn o bryd mae'n astudio Cymraeg, Seicoleg a Bioleg yng Ngholeg Meirion Dwyfor, ond heb benderfynu eto, ar pa bwnc i'w astudio yn y Brifysgol.

Deallwyd yn ddiweddar i Angharad Llywelyn Ellis, Minffordd – enillydd Tlws yr Ifanc y llynedd sydd yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Bangor ddod yn drydydd am y goron yn yr Eisteddfod Ryng-golegol yn Abertawe eleni. Llongyfarchiadau iddi!

**Llywydd nos Wener**



Llywydd nos Wener oedd Delyth James, Dôl Helyg. Fe'i ganwyd yn swydd Nottingham ond dychwelodd y teulu i Drawscoed lle mynychodd ysgol gynradd Llanafan ac Ysgol Uwchradd Tregaron cyn graddio o Brifysgol Aberystwyth. Bu'n gweithio am rai blynyddoedd yng Nghylch Meithrin Trefeurig cyn symud at Menter a Busnes. Mae ar hyn o bryd hefyd yn gwneud gradd Meistr. Mae ganddi hi a Dylan ei gŵr dri o blant - Rhys, Sion a Cerys - sydd yn Ysgol Gyfun Penweddig. Mae'n aelod o Gyngor Cymuned Trefeurig, Pwyllgor y Neuadd ac yn aelod yn Eglwys St. Ioan lle mae'r teulu yn weithgar.

Yn ei haraith fel y cafodd ei magu mewn teulu hollol ddi-Gymraeg, oedd wedi symud yma o Loegr. Yn bedair oed, dechreuodd yn Ysgol Llanafan. Gyda Miss Dilys Rees fel Pennaeth, roedd Cymreictod yn rhan mawr o'r addysg, hyd yn oed i blentyn hollol ddi-Gymraeg fel hi. Dyna lle dysgodd siarad Cymraeg.

Rhan mawr o fagu hyder wrth siarad Cymraeg oedd cael ei hannog i gystadlu mewn Eisteddfodau – un yr ysgol, yr Urdd, Bont… yb Roedd wrth ei bodd yn canu gyda'r côr, ond fwy na dim byd arall yn llefaru. A'r cyfleoedd yna i sefyll ar y llwyfan a llefaru yn y Gymraeg wnaeth fagu'r hyder ynddi i fod yn ddwyieithog.

Roedd dysgu Cymraeg wedi bod o fantais anferth iddi. Astudiodd Gymraeg yn yr ysgol hyd at Lefel A, mae'n gweithio mewn swyddfa lle mae'r iaith yn cael ei defnyddio fel y brif iaith o ddydd i ddydd, magodd dri o blant sydd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf ac wrth gwrs nid yw yn teimlo fel dysgwr rhagor.

A dyma pam, meddai, ei bod mor bwysig i bob blentyn, - Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith, yn cael y cyfle i fagu hyder trwy ddefnyddio'r Gymraeg ar y llwyfan. Diolchodd i Bwyllgor yr Eisteddfod am wirfoddoli i bwyllgora i greu cyfleoedd fel hyn.

# RHEDYN

Yn gynnar yn y gwanwyn ei irddail
sy'n harddwch arobryn;
yna wele i ddilyn
ei rwysg ar hydref y bryn.

**John Ffrancon Griffith, Abergele**

Englyn disgrifiadol crwn ac yn gyfanwaith teilwng.
Gwenallt Llwyd Ifan

# SYCHED

Mae gwefus laith y Gwanwyn ar y coed,
A'r blagur îr mewn swildod cyn y ddawns,
Y cyffro wrth i'r brigau gadw oed
A dechrau ar berthynas. Cym'ryd siawns
Y bydd 'na dwf cyn hir' a'r byd yn gân
O obaith mewn gwyrddni yma a thraw,
Y closio yn yr awel, serch ar dân,
A bysedd bach y coed yn cydio llaw.
Daeth Post y Gwynt a'i gwdyn gyda hyn
A deilios fel llythyrau'n cwympo'i lawr,
Eu rhwygo o'r canghennau diddos tyn,
A'r neges yno'n glir - "Mae'n aeaf 'nawr."
Y syched maith lle bu y diod gynt
A gwres perthynas wedi mynd 'da'r gwynt.

**Hannah M Roberts, Llandaf**

Soned effeithiol iawn yn plethu troad y tymhorau gyda thynged serch a chariad. Cerdd effeithiol iawn.

*Gwenallt Llwyd Ifan*



**Nest Jenkins, beirniad llefaru nos Wener; Marianne Jones Powell . Cadeirydd a Heledd Besent, beirniad cerdd nos Wener**

Enillydd y gadair oedd (Dafydd) Emyr Jones, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd sydd yn enedigol o Geredigion - mab ieuengaf y Prifardd Dafydd Jones, Ffair-rhos. Ail gydiodd mewn barddoni yn y deuddeng mlynedd diwethaf ac erbyn hyn mae wedi ennill chwe chadair – hon yw'r 7fed ac ers iddo ennill ym Mhenrhyn-coch yn 2016 enillodd gadeiriau Maenclochog a Brynberian. Mae wedi ymddeol o faes Technoleg Gwybodaeth; ac yn aelod o Dîm Talwrn y Beirdd, Ffair-rhos.


Dafydd Emyr Jones
Llun: Arvid Parry-Jones

# YNYS

Un wyrth ar ddydd o chwerthin – un tad cŵl
Un tad-cu yn frenin,
Un wyres Ffion Erin
Yn y pram yn drysor prin.

Yn haden llawn direidi – yn hwyliog
Wrth gael ei bodloni,
Ar unwaith gwnes wirioni'n
Rhwydd ar ei hapusrwydd hi.

Aelwyd llawn cariad teulu – oedd iddi
Trwy ddyddiau bu'n tyfu,
Yno i'w hamgylchynnu
Yn llwyr 'roedd perthnasau'n llu.

Amser yn llawn pleserau – o arwain
Y chwarae am oriau,
Yno'n hawdd hi yn mwynhau
Yr undod gyda'i ffrindiau.

* * *

Yna bu'n dechrau poeni
Am anghydfod yn codi
Yn annedd ei rhieni.

O rywle daeth cwerylon
Â'u iasau yn fwy cyson
I fyrhau ei llamau llon.

Wylo o stŵr cweryla
Nosol o'r stafell nesa
Oedd ei byd ar hyd yr ha'.

Yn agos i'w harddegau
Yn y tŷ hi yn tristàu
Yn sŵn yr ymrysonau.

Â'i diflasrwydd drwy'r flwyddyn
Yn y niwl ar ben ei hun
Yn haint i unig blentyn.

Hi yn eiddgar am gariad – o bydew
Ei byd di-gyfeiriad,
Yn methu hwyl mam a thad.

O'i phicil hi'n encilio – o weled
Ei theulu'n dadfeilio,
A hithau'n frau yn y fro.

Heb ei hyder arferol – mae y boen
Am ei byd ynysol
Yn anobaith arteithiol.

Yfory anghyfarwydd – yw ei gwae,
Ar goll mewn unigrwydd
Yn Hydref â'i enbydrwydd.

**Dafydd Emyr Jones**

# GARDD

Ugain wrth ugain yw ei led a'i hyd,
A chlawdd yn ei warchod rhag llygaid byd.
O'r sied yn y cefn rhed llwybr troed
I'r tŷ haul pen draw, yr hardda erioed.
Rhyw esgus o lawnt sydd ar y dde
Lle chwarae pêl, nid yw'n fawr o le.
Gosodwyd y gweddill mewn gwelyau sgwâr
Ar gyfer hadau a thoriadau sbâr.
Mae'r rhychau tato yn syth fel saeth
A'r riwbob yn pipo trwy'r ddaear llaith.

Y setiau winwns, a'r hadau ffa,
Sy'n barod i'w gosod, mewn pryd i'r ha'.
Yn dal eu tir yn erbyn y gwynt,
Mae cennin olaf y tymor cynt.
Mewn whilber rydlyd mae'r mint yn dod
Eleni eto, fel troad y rhod.
Yr egin cyntaf sy'n gwthio'i ben
Trwy ystlys bigog y gwsberen wen,
Ac yn codi llaw o'r border bach
Mae blodau mis Mawrth yn canu'n iach.

Yn gwmni selog daw'r deryn du
Yn dynn wrth fy nghwt wrth adael y tŷ.
Ei fryd sydd ar fwydyn ond tybed a ŵyr
Y cysur a deimlaf bob bore a hwyr
Wrth glywed ei gân yn atsain trwy'r fro
Neu ei weld yn fy ngwylio â'i ben ar dro.

Eisteddaf nôl ar y dec newydd sbon
A thon o ddedwyddwch yn llenwi'm bron.
O na bai'r byd yn debycach i'm gardd,
Yn fôr o ddedwyddwch mewn oes di-wardd.
O na fyddai cân y fwyalchen hud
Yn llonni calonnau arweinwyr byd.

**Phil Davies, Tal-y-bont**

Telyneg diriaethol a rhwydd iawn.
Hyfryd o gerdd wedi ei saernio'n gelfydd iawn.

*Gwenallt Llwyd Ifan*



Betsan a Gronw Fychan Downes. Llun: Arvid Parry-Jones







Ioan Mabbutt ac Owen Jac Roberts Llun: Arvid Parry-Jones



Ffanfferwyr Ysgol Penrhyn-coch yn seremoni Tlws yr Ifanc nos Wener



Tecwyn Jones, Machynlleth
Llun: Arvid Parry-Jones



Caryl Ebenezer Thomas, cyd-lywydd nos Sadwrn gyda'i chwaer Anwen Ebenezer Ellis (oedd yn methu bod yn bresennol) yn traddodi ei haraith. Llun: Arvid Parry-Jones

# TLWS YR IFANC

Daeth naw ymdrech i lawr eleni – gellir gweld y feirniadaeth ar wefan Trefeurig. Dyma oedd gan Gwenan Gibbard i ddweud am yr ymdrech fuddugol.

Pumawd offerynnol yw 'Amrywiadau'r Garth' gan Bwrlwm, gyda chyfuniad diddorol eto o offerynnau – ffliwt, clarinet, cello, piano a thelyn. Dyma ddarn mewn 4 rhan – thema ac amrywiadau ond o fewn y strwythr pendant mae teimlad o ryddid yn rhythmig ac yn alawol. Mae yma ddiddordeb o'r cychwyn a digonedd o farciau deinameg, sy'n dod a'r cyfan yn fyw. Mae i pob amrywiad ei naws a'i gymeriad ei hun, yr offerynnau mewn gwrthbwynt i'w gilydd gyda rhythm annibynol y cello yn ddiddordeb ychwanegol. Byddai posib arbrofi ymhellach efallai gyda rhannau y piano a'r delyn – tybed oes modd cael rhagor o amrywiaeth rhwng y rhannau, ac efallai symud yn uwch neu'n is o ran traw yr octaves ambell waith? Ond wedi dweud hyn, dyma ddarn sy'n dangos medrusrwydd a syniadaeth gerddorol. Mae'r cyfan yn cyrraedd uchafbwynt yn y rhan olaf, lle mae sylw i fanion rhythmig, a phob offeryn yn ateb ei gilydd yn gelfydd a chlyfar a'r rhythmau gwahanol yn apelio'n syth i'r glust ac yn diddanu'r gwrandawr. Mae yna lawer yn digwydd yn y cyfansoddiad hwn ond mae'n gyfanwaith a hwnnw'n llawn bwrlwm, sy'n llwyr haeddu Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Penrhyn-coch eleni. Llongyfarchiadau ar gyfansoddiad diddorol tu hwnt, a fydd yn sicr yn rhoi boddhad i berfformwyr y gwaith ac i'r gynulleidfa sy'n gwrando.

*Gwenan Gibbard*

Yr enillydd Tlws yr Ifanc oedd Siwan Aur George, Lledrod. Yn ei geiriau ei hun "Rwy'n ferch y filltir sgwâr ac wedi fy ngeni a'm magu yn ardal Tregaron ble mynychais Ysgol gynradd Lledrod. Eleni, rwy'n brif ferch yn Ysgol Henry Richard, Tregaron ac yn sefyll fy arholiadau TGAU. Rwy'n ymddiddori yn y Gwyddorau, Cymraeg, Mathemateg, Hanes a Cherddoriaeth. Yn y dyfodol, hoffwn ddilyn gyrfa fel athrawes Mathemateg neu athrawes Gymraeg.

Mae 'Steddfota yn rhan annatod o fy mywyd. Mae fy nyled yn fawr i Eisteddfodau lleol, ble magwyd hyder a brwdfrydedd ym myd perfformio a chystadlu. Un o fy hoff brofiadau oedd bod yn gapten Eisteddfod yr Ysgol Uwchradd ar ddechrau'r mis ac arwain y tîm i fuddugoliaeth. Llwyddais i gipio'r tlws fel prif lefarydd y dydd.

Rwy'n aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Lledrod ac yn mwynhau pob elfen o'r mudiad . Rwy'n ymddiddori ym myd y siarad cyhoeddus ac yn cynrychioli tîm Ceredigion yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus Cymru bore fory (dydd Sadwrn).

Rwy'n berson anturus a chyfeillgar ac yn gobeithio cael cyfleoedd i deithio'r byd er mwyn ehangu fy ngorwelion a gwneud llu o ffrindiau newydd ar hyd y daith. Dwi'n mwynhau bywyd ac yn awyddus i wneud y gorau o bob cyfle sy'n dod ger fy mron. "

Da deall i Siwan gael hwyl ar y Sadwrn – cafodd ail fel siaradwr ac ail fel tîm yn y gystadleuaeth. .

Ar ôl sefyll ei harholiadau TGAU mae'n gobeithio mynd ymlaen i astudio Mathemateg Bioleg Cymraeg a Hanes fel Lefel A yn Ysgol Penweddig. Yna mynd ymlaen i astudio am radd ym Mathemateg neu'r Gymraeg.



Siwan Aur George, Lledrod, enillydd Tlws yr Ifanc
Llun: Arvid Parry-Jones

# Codi arian at Honno

Dybed faint ohonoch sy'n gwybod bod gwasg menywod annibynnol hyna'r Deyrnas Gyfunol wedi ei lleoli yn Aberystwyth, ar gampws y Brifysgol? Sefydlwyd Honno yn 1986 gan grŵp o fenywod a deimlai'n gryf bod ar fenywod yng Nghymru angen mwy o gyfleoedd cyhoeddi ar gyfer eu gwaith a hefyd mwy o gyfleoedd i fod yn rhan o'r broses gyhoeddi. Mae Honno'n falch iawn o'r ffaith ei bod yn parhau i fodoli fel busnes cydweithredol a chymunedol sy'n hyrwyddo egwyddorion o gydweithrediad, amrywiaeth a chydraddoldeb. A fel mae'n dweud ar y wefan: Cenhadaeth Honno yw cyhoeddi gwaith gan fenywod Cymraeg/Cymreig. Mae hyn yn golygu menywod wedi eu geni neu sy'n byw yng Nghymru, ond mae Honno hefyd yn barod i ystyried cyhoeddi gweithiau o ddiddordeb arbennig i fenywod Cymru hyd yn oed os yw'r awduron yn dod o wlad arall. Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o'r llyfrau a gyhoeddir yn Saesneg ond mae'n fwriad gan Honno gyhoeddi neu ailargraffu mwy o waith yn y Gymraeg, yn enwedig ar gyfer oedolion ifainc. Un o brif gyfraniadau Honno at lenyddiaeth Cymraeg yw'r gyfres Clasuron Honno sydd wedi helpu i ailgynnau diddordeb mewn awduresau fel Elena Puw Morgan (e.e. mae *Nansi Lovell: Hunangofiant Hen Sipsi* newydd ymddangos gyda rhagair gan ddwy o wyresau'r awdures) neu Gwyneth Vaughan. Bwriad Honno gyda'r gyfres Clasuron (a'r gyfres Classics yn Saesneg) yw dewis ac ailargraffu gweithiau sydd nid yn unig o ansawdd lenyddol uchel ond sydd hefyd yn parhau i fod yn ddarllenadwy ac yn gallu apelio at gynulleidfa fodern. Mae'r wasg hefyd yn comisiynu cyfieithiadau o weithiau Cymraeg er mwyn iddynt gyrraedd cynulleidfa ehangach. e.e cyfieithwyd *Blasu* Manon Steffan Ros fel *The Seasoning* a mae bywgraffiad Menna Elfyn o Eluned Phillips wedi ymddangos: *Absolute Optimist.* Mae mwy o wybodaeth am y gweithiau yma i gyd ar y wefan www.honno.co.uk

Un o brosiectau cyfredol Honno yw ailargraffu clasur gan awdures o Gymru a ysgrifennai yn Saesneg, sef llyfr Allen Raine, *Queen of the Rushes: A tale of the Welsh Revival.* Mae'r pregethwr Evan Roberts yn un o gymeriadau'r nofel ac yn ôl un o staff Honno, Ali Greeley, mae'n stori sy'n dylunio tirwedd lenyddol ddiamheuol Gymreig ac yn dangos mor ddawnus oedd Raine fel storïwraig, darlunydd cymeriad a hanesydd cymdeithas. Gwerthwyd dros 300,000 o gopiau ar ddechrau'r 20fed ganrif a roedd y llyfr yn sail i un o'r ffilmiau mud Prydeinig cyntaf (sy'n anffodus ar goll nawr). Hwn oedd y teitl cyntaf i Honno gyhoeddi yn y gyfres *Welsh Women's Classics* ac er mwyn sicrhau ei fod yn aros mewn print mae pedair aelod hynod ymroddedig (gwallgof?) o'r staff wedi penderfynu codi arian drwy nofio, seiclo a rhedeg yn y DYFI DASH (http://www.ceristtriathlon.org.uk/index.php/en/races-events/). Y tîm fydd yn cymryd rhan yw Tricia Chapman (Cynhyrchu), Helena Earnshaw (Marchnata), Caroline Oakley (Golygyddol) ac Ali Greeley (Cyllid). Os hoffech gyfrannu at gadw'r nofel bwysig yma mewn print byddent yn hynod ddiolchgar pe baech yn ystyried eu noddi. Mae'r manylion yma: https://www.justgiving.com/crowdfunding/honno

Drwy gefnogi Honno byddwch yn cefnogi ysgrifennu gwych, straeon gwych a menywod gwych ac yn helpu gwasg fach annibynnol Gymreig i oroesi yn y byd cyhoeddi anodd sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

Nodwyd arwyddocâd Honno a'i chyfraniad i fywyd Cymru pan enwyd Honno a'r menywod a sefydlodd y cwmni ar y rhestr o 100 o fenywod Cymru a grewyd gan Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru ym 2018 i nodi canmlwyddiant Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1918. Rhestrwyd 100 o fenywod oedd un ai wedi effeithio'n bositif ar fywyd y genedl yn y gorffennol neu'n ysbrydoli ac yn siapio pobl Cymru ar hyn o bryd (http://www.100menywodcymreig.cymru/100-women/honno_press/). Yn ychwanegol, roedd chwech o awduresau Honno ar y rhestr o 100 menyw (Elizabeth Andrews, Deirdre Beddoe, Betsi Cadwaladr, Kate Bosse-Griffiths, Amy Dillwyn ac Ursula Masson), sy'n dangos yn glir y pwysigrwydd o gyhoeddi gwaith newydd ac ailargraffu gwaith menywod o'r gorffennol. Er ei bod yn gymharol fach mae'r wasg yn cyhoeddi ystod eang o lyfrau o wahanol gategorïau e.e. llyfrau taith, bywgraffiadau, ffuglen trosedd a dirgelwch, sagas teuluol, casgliadau o ygrifau gwleidyddol) a byddwch yn sicr o gael hyd i rywbeth at eich dant os cewch gip ar y wefan.

Os hoffech chi wybod mwy am waith Honno neu os oes gennych awydd cyflwyno gwaith i'w ystyried ar gyfer ei gyhoeddi mae'r manylion ar y wefan www.honno.co.uk neu gallwch ddilyn Honno ar facebook.com/honnopress neu ar y cyfrif trydar @honno

Winifred Davies, aelod o bwyllgor Honno




# Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau Mawrth 21ain yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor gyda'r cadeirydd Aled Lewis yn y gadair. Roedd yna ymddiheuriadau oddi wrth dau gynghorwr.

Personol – Liongyfarchwyd y Cynghorydd Aled Lewis ar enedigaeth merch fach.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Chwefror fel rhai cywir. Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn llythyr o ddiolch am y rhodd ariannol oddi wrth Ysgol Pen-llwyn. Cafodd siec o Cafodd siec o £500 ei chyflwyno i Apêl Melindwr, ar ran y Cyngor gan y Cynghorydd Gareth Daniel, yn y noson

Cawl a Chân ar y 15fed o Fawrth. Mae'r gwaith mewn llaw i osod y meinciau yn eu lle yng Ngoginan a Pant-y-crug. Mae'r panel gwydr wedi ei drwsio yn y gorchudd bws ger Stad Pen-llwyn.


Roedd tri chais cynllunio wedi dod i sylw y Cyngor; wedi trafodaeth hir roedd gwrthwynebiad i gais A190146.

Penderfynwyd rhoddi cyfraniad ariannol tuag at Gyngor ar Bopeth Ceredigion.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau Mawrth 21ain am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor.

# Colofn Enwau Lleoedd

Y mis hwn fe drown ein golygon tua phentref *Pontarfynach*, neu *Devil's Bridge* yn Saesneg, rhyw ddeuddeg milltir i'r dwyrain o Aberystwyth, lle mae tair pont wedi eu codi, un uwchben y llall, i groesi afon Mynach.



Mae'n lled sicr o'r dystiolaeth a gyflwynir yng nghyfrol Iwan Wmffre, *The Place-Names of Cardiganshire* (2004; t.909), mai *Pontarfynach* oedd yr enw gwreiddiol. Ymddengys i *Devil's Bridge* gael ei fabwysiadu erbyn ail chwarter y ddeunawfed ganrif, mewn ymgais i ddenu ymwelwyr o bosibl.

Digwydd yr enw *Devil's Bridge* yn gyffredin ar draws Ewrop i ddynodi pontydd y bu eu hadeiladu yn gryn orchest, gorchest a gâi ei hystyried y tu hwnt i allu dyn, ac y credid felly mai ond y diafol allai fod wedi ei chyflawni.

Ceir chwedlau am y diafol yn gysylltiedig ag amryw o'r pontydd hyn.

Bydd darllenwyr *Y Tincer* yn gyfarwydd â chwedl *Pontarfynach* sy'n adrodd am y diafol yn cynnig adeiladu pont i hen wraig i'w galluogi i gyrraedd at ei buwch, ar yr amod y câi ef y peth cyntaf fyddai'n ei chroesi. Ond roedd yr hen wraig yn gyfrwys, ac wedi i'r diafol orffen ei waith, dyma hi'n taflu crystyn dros y bont er mwyn annog ei chi diwerth i'w chroesi.

Cafodd delwedd y diafol ei hymestyn ymhellach ym *Mhontarfynach* gan mai enw'r trobwll mawr ar waelod y rhaeadr serth yn union islaw'r tair pont yw'r *Devil's Cauldron* neu'r *Devil's Punchbowl*.

Ceir enghraifft arall o'r enw *Devil's Bridge* ar afon Clydach ym mhentref Blackrock, i'r gorllewin o'r Fenni. Perthyn yr enw hwn hefyd i'r un dosbarth o bontydd y bu'n dipyn o gamp i'w codi, ond mae'n ddiddorol bod Frank Olding, yn ei gyfrol *Llên Gwerin Blaenau Gwent* (2010; t.33-4) yn nodi:

'Gwelir wyneb y Diafol ei hun wedi'i naddu gan yr afon yn ochr y graig ar ymyl y pistyll',

sy'n awgrymu dehongliad gwahanol. Sonia hefyd mai'r enw Cymraeg yw *Pont y Fall*, gyda *mall* yn golygu 'diafol neu satan', sy'n glynu at yr un thema.


A wyddoch chi am ragor o enwau diafolaidd yn ardal *Y Tincer*? Rhowch wybod!

**Angharad Fychan**

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a'r Cynllun GWARCHOD
www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru

## CD CÔR ABC

Cafodd Côr ABC, dan arweiniad Gwennan Williams, Bryncastell, amser prysur yn ddiweddar. Roeddynt yn y rownd corau cymysg yng nghystadleuaeth Côr Cymru ganol Chwefror. Cyn hynny buont yn recordio 15 o hoff emynau Cymru ar gyfer CD Gŵyl y Pasg sydd wedi ei chyhoeddi. (Cyhoeddiadau Curiad 1071) (Hoff emynau, cyfrol 6) Mae llyfryn geiriau yn gynwysedig sydd yn cynnwys geiriau a cherddoriaeth yr emynau hynny sydd yn rhan o'n hetifeddiaeth, ynghyd â nodiadau ar gefndir y cyfansoddwyr a'r awduron. Mae chwech o'r emynau gan Williams Pantycelyn.




£12

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Yng nghyfarfod mis Mawrth o'r Cyngor o dan lywyddiaeth y Cyng. Rowland Rees, gresynwyd eto at agwedd haerllug Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn mynegi pryder nad yw Cynghorwyr Cymuned yn fodlon derbyn taliadau o £150 at eu costau. Ond bydd hyn yn ddeddf a rhaid i'r Cyngor gydymffurfio, er nad yw'r Cynghorwyr yn mynnu unrhyw dâl. Dyma Benderfyniad rhif 40 y Panel, "Rhaid i bob Cyngor Cymuned a Thref sicrhau fod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w haelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau".

Dywedodd y Clerc fod hysbysfyrddau wedi eu harchebu a phenderfynwyd ar y pennawd "Cyngor Tirymynach Council". Penderfynwyd hefyd ar dderbyn hyfforddiant Cynghorwyr ym mis Mai, ac mai Saesneg fydd iaith yr hyfforddiant. Deallir fod pwyllgor Neuadd Rhydypennau yn bryderus am ddyfodol y neuadd, ac wedi gosod siarter ymgynghorol ar fur yr ystafell bwyllgor yn gofyn i'r cyhoedd nodi eu barn. Teimlant fod oes y neuadd fel ag y mae, wedi dod i ben, ac efallai ei bod yn bryd dymchwel yr adeilad a chodi un newydd. Nodwyd hefyd fod y toiledau allanol wedi cau. Rhoddir cyfraniad o £250 tuag at gostau Treialon Rhyngwladol Cŵn Defaid a gynhelir yn Nhanycastell, Rhydyfelin.

Dywedodd y Clerc fod papurau Archwiliad 2018-19 a'r Audit wedi dod i law, a dychwelir hwy yn yr amser priodol. Pasiwyd Cydnabyddiaeth y Clerc, a diolchwyd iddo am ei waith trylwyr yn ystod y flwyddyn.

Yn ei adroddiad misol dywedodd y Cynghorydd Paul Hinge bod yna ŵr arbennig wedi bod yn edrych ar y posibilrwydd o gael llwybr seiclo o Dal-y-bont i Aberystwyth. Rydym yn methu cael llwybr o'r Dolau i Rydypennau ers blynyddoedd! Mae coed yn poeni rhai o drigolion Carreg Wen, Bryncastell, ac mae'n edrych mewn i'r broblem. Cawsom adroddiad ar gyflwr ysgolion yn gyffredinol ganddo.

Mae cwyn fod cerbydau yn parcio yn man troi nôl ar y ffordd o flaen ystâd Tregerddan, hyn yn achosi anawsterau i gerbydau eraill.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau 25 Ebrill am 7.30pm.

# BOW STREET

**Suliau**
**Capel y Garn 10.00**
*Ebrill*
21 Sul y Pasg Oedfa'r ofalaeth Gweinidog
28 Rhidian Griffiths

*Mai*
5 Bugail
12 10.00 a 5.30 Cymanfa Ganu ym Methel, Aberystwyth
19 Bugail Nos – Bethlehem, Llandre
26 Terry Edwards

**Noddfa**
*Ebrill*
21 Sul y Pasg Y Parchg Richard Lewis
28 10.00 Y Parchg Judith Morris

*Mai*
5 Uno yn y Garn
12 10.00 a 5.30 Cymanfa Ganu ym Methel, Aberystwyth
19 Uno yn y Garn am 10.30 Sul Cymorth Cristnogol
26 Y Parchg Richard Lewis

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn gyda theulu y diweddar Gerald Keegan, Foel Goch, fu farw ar Fawrth 14.

**Newyddion Cyffrous – Neuadd Rhydypennau**
Wedi cyfnod o ymgynghori ac ymholi mae pwyllgor y Neuadd wedi dod i'r casgliad fod adeilad y neuadd fel ag y mae wedi chwythu ei blwc a daeth yr amser i godi adeilad newydd yn ei le. Gallwch fynegi eich barn am ddyfodol y neuadd wrth ychwanegu eich sylwadau i'r siartiau ymgynghorol sydd i'w gweld ar wal y neuadd a'r ystafell bwyllgor ar hyn o bryd. Os hoffech fod yn rhan o'r ymgyrch danfonwch e-bost at: neuaddrhydypennau@live.co.uk



**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â theulu y diweddar David Evans gynt o 2 Tregerddan, a fu farw yn cartref nyrsio Plas Cwmcynfelin, Clarach, ar 17 Mawrth 2019.
ac â Sara, Sion ac Alys ar farwolaeth tad Sara – Gareth Jones - yng Nghefn-llwyd

**Gig leol**
Bydd Meilyr Jones - un o fechgyn Bow Street yn dod nôl i greu gig lleol yn Neuadd Goffa Tal-y-bont. Gellir cael tocynnau - £10 – yn Siop y Pethe neu dalu ar y drws ond dim ond arian parod dderbynnir.

**Priodas ruddem**
Llongyfarchiadau i Menna ac Elgan Davies, Maes Afallen, ddathlodd eu priodas ruddem ar 7 Ebrill.

**Ar y radio**
Gellir clywed Esyllt Sears (nee Dafydd) yn ei rhaglen radio ei hun - 'Esyllt Sears' ar nosweithiau Gwener ar Radio Cymru rhwng 6.00 – 7.00. Cyhoeddwyd hefyd y bydd ei sioe Gŵyl Caeredin hi ac Eleri Morgan (Tal-y-bont) yn yr oruwch ystafell yn y Golf Tavern (@GolfTavern) rhwng Awst 1-14 am 4.45. Mae ei sioe ar Fai 4ydd yng Ngŵyl Gomedi Machynlleth wedi gwerthu allan.

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Ar nos Lun, Mawrth yr 11eg, aethpwyd allan am noson gawl yng ngwesty'r Marine i ddathlu Gŵyl Ddewi. Ar ôl gwledda ar y cawl mwya' blasus a tharten fale hyfryd,cawsom ein diddanu gan Megan Lloyd Williams a ddaeth yr holl ffordd lawr o Gwmstradllyn, ger Porthmadog. Siaradodd am gyfoeth a hiwmor ein hiaith yn enwedig mewn llenyddiaeth mewn ffordd frwdfrydig a bywiog. Rhoddwyd y diolchiadau gan Mair Lewis. Enillwyr y raffl, rhoddededig



Ifan Gruffydd, y gŵr gwadd yn noson Gŵyl Ddewi Cymdeithas Lenyddol y Garn, gyda'r Cadeirydd, y Parch Richard Lewis



Liz Lloyd Jones a Margaret Rees a fu wrthi'n paratoi'r bwyd yn noson Gŵyl Ddewi Cymdeithas Lenyddol y Garn

gan ein llywydd, Brenda Jones, oedd Meinir Roberts a Elizabeth Jones

**Swyddogion y Garn**

Cyn eu cyfarfod ar 8 Ebrill, manteisiwyd ar y cyfle i dynnu llun o Swyddogion Capel y Garn gyda'u gweinidog, Y Parch Ddr Watcyn James.

Yn eistedd, o'r chwith i'r dde, y mae Vernon Jones, Alan Wynne Jones, Y Parch Dr R Watcyn James, Marian Beech Hughes a'r Arglwydd Elystan-Morgan, ac yn sefyll, o'r chwith i'r dde, y mae Erddyn James, Yr Athro Gruffydd Aled Williams, Dewi G Hughes, Bryn Roberts, Mary Thomas ac Eddie T Jenkins.
Llun: Iestyn Hughes

**Cofio Gwynfor (1921-2018)**

Ar y 23ain o Fawrth, daeth nifer dda o'r teulu a chyfeillion ynghyd i gladdu llwch Gwynfor Hughes ym mynwent y Garn. Roedd Gwynfor yn 97 oed ac wedi cael oes hir a llawn. Diolch arbennig i'r Arglwydd Elystan Morgan am ei barodrwydd i dalu teyrnged ar lan y bedd ac i Mr Vernon Jones am ofalu bod popeth mor drefnus yn y fynwent.

Ganed a maged Gwynfor yn Bow Street a chadwodd gysylltiad agos â'r pentref drwy ei oes, gan fanteisio ar bob cyfle i ddychwelyd bryd bynnag y byddai modd.

Er mai heddychwyr oedd y teulu, bu'r tad a'r mab yn ymladd yn y ddau Ryfel Byd – William Hughes ym mrwydrau'r Somme ac Ypres – fe'i anafwyd ym mrwydr Passchandaele yn 1917. Roedd Gwynfor yntau ar flaen y gad – yn un o'r 'glider pilots' yn yr ymgyrch aflwyddiannus ar Arnhem yn 1944, a anfarwolwyd yn ddiweddarach yn y ffilm enwog 'A Bridge Too Far'. Dychwelodd y ddau i Bow Street wedi'r rhyfeloedd a chymryd rhan weithgar yn y pentref. Diddorol nodi, gan fod sôn am godi neuadd newydd yn Rhydypennau, bod William Hughes yn aelod o'r pwyllgor gwreiddiol i gael y neuadd gyntaf yn 1920, a'r tad a'r mab â rhan flaenllaw yn yr ailadeiladu ym 1953.

Wedi 'demob' yn 1946, priododd â Ann – yn wreiddiol o Fanceinion, ond wedi ei danfon i Dre'r-ddôl i weithio'n torri coed fel rhan o Fyddin y Tir. Roedd y ddau wedi cwrdd cyn i Gwynfor fynd i ffwrdd ac yn manteisio ar bob cyfle i gyfarfod pan fyddai amgylchiadau'n caniatau. 'Wartime romance' go iawn. Bu'r uniad yn un hapus am dros 70 mlynedd.

Symudodd y ddau i Groesyceiliog, Cwmbrân yng nghanol y 50au a bu Gwynfor yn gweithio i Fwrdd y Dociau hyd ei ymddeoliad. Roedd yn teithio'n rheolaidd rhwng porthladdoedd Casnewydd, Caerdydd, y Barri, Port Talbot ac Abertawe ar adeg pan oedd cryn brysurdeb yn y dociau. Yn gysylltiedig â'i swydd, datblygodd ddiddordeb arbennig mewn archaeoleg ddiwydiannol. Bu'n ysgrifennydd Cymdeithas Archaeoleg Ddiwydiannol De Ddwyrain Cymru am gyfnod maith. Gofid calon iddo oedd cau'r Amgueddfa Ddiwydiant a Môr.

O Gwmbrân, symudod y ddau a'r teulu i fyw yn Rhiwbeina, Caerdydd a sefydlu cartref hapus am gyfnod hir, tan ymddeol a symud i Dongwynlais.

Estynnwn ein cydymdeimlad â'r plant, Rhys a Tessa, a'r wyrion, Ceiron, Ben, Beau ac Ezra.

Roedd cydwybod cymdeithasol ac ymwybyddiaeth wleidyddol yn cyd-blethu'n naturiol yn Gwynfor ac Ann a cadwodd y ddau at egwyddorion tegwch, cyfiawnder a chydraddoldeb drwy eu bywydau.

Heddwch i'w llwch

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Mervyn ac Angeline James, Rhiw-lan, ar ddathlu eu pen-blwydd priodas ddiemwnt ddechrau'r mis.

# DOLAU

**Anrhydeddu ac ennill**

Llongyfarchiadau i Mrs. Ann Jones, Bryngwyn Isaf, ar gael ei dewis yn Is-Lywydd Anrhydeddus Cymdeithas y Merlod a'r Cobiau Cymreig, yn eu Cyfarfod Blynyddol yn Glasgow, ar Fawrth 30ain 2019. Enillodd Ann hefyd Dlws Parhaus Gwyn Price am fagu'r march Fron-goch Cardi, yn y gystadleuaeth epil.






Ben Lake AS yn cael ei ddangos o gwmpas yr adeiladu ar dir IBERS

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

# Myfyrdod Y Pasg

**Toriad y wawr**

Ydych chi erioed wedi gwylio toriad y wawr? Mae rhywbeth hynod atyniadol am weld yr haul yn codi. Mae rhywbeth gogoneddus am weld y llewych yn newid tywyllwch y nos i oleuni'r dydd ar ddechrau diwrnod newydd. Mae'r profiad yma'n fwy rhyfeddol wrth wylio toriad y wawr ar gopa bryn, dyma rywbeth sy'n dod â phleser mawr i mi.

Ar Sul Y Pasg yn fy mhlwyf blaenorol, roeddem ni'n dringo Mynydd Tre-wman (Plumstone), Sir Benfro, i weld codiad yr haul a dathlu gwasanaeth wawr. Buom yn canu emynau gyda chyfeiliant ukelele a chlywed eto'r neges o'r Beibl fod Iesu wedi atgyfodi ar ôl ei farwolaeth. Mae llawer o Gristnogion ledled y byd yn dechrau eu dathliadau Pasg trwy wylio'r tywyllwch yn newid i oleuni. Yn y Beibl, cawn ein hatgoffa o'r grŵp o wragedd sy'n mynd i fedd yr Iesu. Aethon nhw yna'n gynnar yn y bore, er mwyn gosod ei gorff ar y trydydd diwrnod wedi'i groeshoeliad. Ond doedd Iesu ddim yno! Darganfyddont ei fod ef wedi atgyfodi. Roedd popeth wedi newid. Mae'r anghyfanedd-dra yn newid i obaith, mae'r galar yn newid i ryfeddod, ac mae bywyd yn gorfoleddu dros angau.

Dwy flynedd yn ôl, roeddwn i'n arwain gwasanaeth Y Pasg ar Fynydd Tre-wman pan oedd fy nhad mewn Uned Gofal Dwys. Doeddwn i ddim yn gwybod os fyddai'n byw neu farw. Wrth wylio toriad y wawr, roedd dagrau yn rhedeg i lawr fy wyneb. Myfyriais ar y ffaith bod bywyd tragwyddol yn addewid i bob un sy'n credu yn Iesu Grist, yr iachawdwr. Fel y gwragedd aeth i weld y bedd, roedd fy anghyfanedd-dra yn niwed i obaith. Beth bynnag oedd yn mynd i ddigwydd, roeddwn i'n sicr bod Iesu Grist wedi chwalu tywyllwch angau.

Yn anffodus, mae fy nhad wedi marw erbyn hyn, a dw i'n parhau i geisio deall a derbyn y sefyllfa. Mae galar yn anodd iawn. Ond mae Cristnogion yn credu nad yw angau'n cael y fuddugoliaeth eithaf. 'O angau, ble mae dy fuddugoliaeth? O angau, ble mae dy golyn? ... I Dduw y bo'r diolch, yr hwn sy'n rhoi buddugoliaeth i ni trwy ein Harglwydd Iesu Grist' (1 Corinthaidd 15:55, 57). Dyma rywbeth i ni ddathlu dros Y Pasg.

**Y Parchg Alun Evans, Bow Street**


D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com

Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

inc

Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION

13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200


## Ysgol Craig yr Wylfa

**Ffair Wyddoniaeth**

Aeth plant Cyfnod Allweddol dau i Ffair Wyddoniaeth a gynhaliwyd yn y Brifysgol. Cawsant gyfle i fynd o amgylch y gwahanol stondinau diddorol er mwyn ehangu eu gwybodaeth am wyddoniaeth.

**Diwrnod Trwynau Coch**

Ar ddiwrnod Trwynau Coch, "Comic Relief" eleni, gwisgodd y plant i fyny yn eu dillad eu hun gyda'r elw yn mynd at yr elusen bwysig yma. Diolch i bawb a gyfrannodd!

**Gŵyl Agor Drysau**

Yn rhan o Ŵyl Agor Drysau, cafodd pob disgybl gyfle i fynd i wylio sioe yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Aeth Cyfnod Allweddol 2 i wylio sioe o'r enw, "Refuge", gan ddau ddyn o Ibiza, tra aeth disgyblion y Cyfnod Sylfaen i wylio'r sioe "Un Petit Peu" a oedd gan griw o Ffrainc.

**Pasg**

Dymunwn Basg Hapus i bawb!


SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland, Aberystwyth SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.



eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells, Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch, Aberystwyth SY23 3EQ

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

MYNACH GARDEN MAINTENANCE
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

# Ysgol Penrhyn-coch

**Llecyn allanol newydd**

Derbyniodd yr Ysgol arian i ddatblygu llecyn allanol newydd i ddisgyblion CA2 – pwrpas yr ardal yw i fedru cynnig cyfleoedd awyr agored a llesol i'r disgyblion i fedru ymchwilio i weithgareddau gwyddonol, dylunio a bywyd natur hefyd. Hoffai'r ysgol ddiolch i gyfraniadau'r canlynol: Cronfa Eleri, Bags for all-Tesco ac i Gyngor Cymuned Trefeurig. Cafodd y gwaith ei gwblhau gan y saer lleol o Langwyryfon, sef Dylan Tandy- jobyn penigamp!

**Dydd Gŵyl Ddewi/Diwrnod y llyfr/ Diwrnod trwynau coch**

Cafwyd wythnos brysur ddechrau'r mis wrth i ni ddathlu nifer o ddigwyddiadau! Braf oedd gweld nifer o'r plant mewn gwisgoedd traddodiadol cyn symud ymlaen i wisgo fel cymeriadau lliwgar o bob math o lyfrau ac yna llond lle o drwynau coch wrth i ni gefnogi elusen y Trwynau Coch - codwyd tua £93! Da iawn i bawb am eich ymdrechion!









**Gŵyl Ddawns yr Urdd**

Unwaith eto eleni daeth criw o ddawnswyr brwd yr ysgol at ei gilydd o dan ofalaeth Rebecca Thomas i greu dawns hip hop a stryd! Roeddent yn cystadlu yn erbyn saith o ysgolion eraill dros Geredigion ac eleni ein tro ni oedd i ddod i'r brig!! Mae'r ysgol wrth eu bodd ac yn falch iawn i'r deg oedd ar y llwyfan sef - Mari, Lowri, Katelyn, Molly, Logan, Lois, Cari , Gwen, Freya a Liwsi. Pob hwyl i chi yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mae Caerdydd - byddan nhw'n cystadlu dydd Mercher 29ain o Fai.

**Eisteddfod gylch yr Urdd**

Braf oedd gweld nifer helaeth o ddisgyblion yr ysgol ar lwyfan yr Eisteddfod gylch. Daeth llwyddiant i Gôr yr ysgol wrth iddyn nhw dderbyn yr 2il safle ac i'r ymgom a ddaeth yn 3 ydd- perfformiodd y parti llefaru yn arbennig hefyd.
Da iawn i'r sawl hefyd a fuodd yn y rhagbrofion unigol.

**Arad Goch-Gŵyl 'Agor drysau'**

Cafodd Blwyddyn 1 a 2 gyfle i weld perfformiad o'r enw 'A seed story' fel rhan o ŵyl 'Agor drysau'; trefnwyd gan y cwmni Arad Goch. Fe wnaeth plant Blwyddyn 1 a 2 wir fwynhau'r sioe, sioe yn llawn cerddoriaeth swynol yn dilyn hanes hadau hudol. Ar ddiwedd y sioe cafodd y plant anrheg, sef planhigyn i'w edrych ar ôl.

Cafwyd sioe tra gwahanol i flwyddyn 3 a 4 wrth i ni gael ein diddanu gan DnA-sioe mam a merch o ardal Abertawe. Cafwyd hanes ein cynefin ar hyn sydd yn bwysg yn ein bywydau a gwnaethpwyd hyn yn glyfar trwy sŵn y delyn a'r ffidil!

Mwynheuodd y plant ymuno mewn wrth berfformio caneuon gwerin traddodiadol.

Cawsom wledd i'r synhwyrau pan aeth bl. 5 a 6 i weld y sioe Ifaciwi yn yr Ŵyl.. Perfformiad gwych, a phawb wedi eu diddanu'n llwyr. Darn heb eiriau, emosiynol a oedd yn deffro'r meddwl ac yn cynnig golwg wahanol ar daith bywyd.

**Eisteddfod Y Penrhyn**

Cafwyd cystadlu brwd ar y nos Wener ac roedd y plant wrth eu bodde! Mae ein diolch yn fawr i'r pwyllgor am drefnu ac am roi y cyfleuoedd yma i'r disgyblion.

**Masnach Deg**

Fel y gwyddoch cafodd disgyblion bl 6 prosiect i gynllunio a chreu siop i hybu bwydydd Masnach Deg fel rhan o ddathliad pythefnos Masnach Deg.Hoffai'r disgyblion ddiolch i bawb a fuodd yn prynu yn y siop. Roedd Bl 6 wrth eu boddau ac mi fyddwn yn defnyddio'r elw i brynu/noddi prosiect i ffermwyr Masnach Deg ar draws y byd.



# Ysgol Rhydypennau

**Pêl-droed Yr Urdd**
Ar y 9fed o Ebrill, bu tîm pêl-droed bechgyn a merched yr ysgol yn cystadlu ym mhencampwriaeth Yr Urdd ar gaeau Blaendolau. Cystadleuaeth rhwng holl ysgolion Ceredigion oedd hon ac roedd ansawdd y pêl-droed o'r safon uchaf. Brwydrodd y ddau dîm yn galed a chafwyd nifer o fuddugoliaethau nodedig yn ystod y dydd. Da iawn i'r merched a'r bechgyn am ymdrechu'n wych.

**Gweithgareddau ac ymweliadau**
Fel rhan o'n partneriaeth â SUSTRANS Cymru, mae'r plant wedi bod yn ymgymryd â sawl gweithgaredd sy'n hybu teithiau iach a theithiau 'gwyrdd' i'r ysgol; bu nifer o blant yn creu trên cerdded o waelod y pentref i'r ysgol yn ddiweddar ac mae'r fenter wedi ehangu i feicio i'r ysgol o sgwâr Tal-y-bont.

Er mwyn ymestyn y cynllun ymhellach fe ddaeth Mrs Helen Jenkins i gynnal sesiwn arbennig er mwyn hyfforddi plant blwyddyn 5 a 6 sut i drwsio olwyn fflat.

Hoffai'r ysgol ddiolch i Helen Jenkins a Sioned Lewis, SUSTRANS Cymru am y cymorth.

**Noson Gêmau**
Ar y pumed o Ebrill cynhaliwyd noson gêmau i'r gymuned yn Neuadd Rhydypennau. Cafwyd noson gymdeithasol arbennig gyda'r gynulleidfa yn mwynhau llwyth o gêmau difyr gan gynnwys rasio ceffylau, gêm gardiau, cwis, disgo a bingo cerddorol i'r plant. Diolch yn fawr iawn i Gymdeithas Rhieni ac athrawon yr ysgol am drefnu a chynnal y noson mor effeithiol.

**Eisteddfod Sir yr Urdd**
Da iawn i bawb a fu'n perfformio ym Mhontrhydfendigaid yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i Erin Hesden-Kenny (dawnsio unigol), Y Parti Unsain a'r parti Cerdd Dant am lwyddo i ennill a sicrhau lle haeddiannol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mae Caerdydd yn ystod hanner tymor fis Mai. Pob hwyl iddynt. Hoffai'r ysgol ddiolch o galon i Mrs Eleri Roberts am ei chymorth yn ystod yr wythnosau ymarfer.

(Estynnwn ein cydymdeimlad gyda Mrs Eleri Roberts – gollodd ei mam ddechrau Ebrill yng Nghlunderwen. Gol.)

**Trip i'r goedwig**
Diolch yn fawr iawn i Cyfoeth Naturiol Cymru am helpu plant yr uned feithrin wrth ymweld â choedwig Gogerddan yn ddiweddar. Cafodd y plant fore arbennig yn gweld y gwanwyn yn deffro o'u cwmpas.

**Clwb Cant**
Dyma ganlyniad fis Ebrill:-
1af. £25 Ronald Taylor, Cae'r Odyn.
2il. £15 Siân Wyn Davies.
3ydd £10 Sara Mitchell.


Tîm pel-droed y Bechgyn


Tîm pel-droed y Merched


Cerdded i'r Ysgol

**Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:**
**www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk**
**@YGRhydypennau dilynwch ni ar drydar.**






# Ysgol Pen-llwyn

**Noson Cawl a Chân Melindwr**
Braf oedd cael cyfle i ddiddanu yn y gymuned ar gyfer apêl codi arian at Eisteddfod Ceredigion 2020. Roedd y Neuadd dan ei sang a mwynheuodd y plant mas draw. Ar ôl yr adloniant, cafodd y plant bowlen flasus o gawl, cacennau Cymreig a chyfle i wrando ar y llywydd, Mr Berian Lewis yn adrodd stori ddoniol. Diolch yn fawr i bawb am y croeso.
Gan Ania Evans

**Traeth Aberystwyth**
Cafodd blwyddyn 3 a 4 diwrnod penigamp ar lan y môr yn Aberystwyth. Roedd amrywiaeth o weithgareddau; dysgodd y plant am effaith plastig ar ein traethau a chyfle i goginio cacennau cig cranc. I bennu, roedd cwis am blastig yn ein moroedd. Rydym yn awyddus iawn i leihau defnydd o blastig, a chawsom gyfle i godi sbwriel oddi ar y traeth. Oes gennych chi syniadau ar sut i helpu ni?
Gan Amelia ac Enfys

**Gŵyl Agor Drysau - Arad Goch**
Aeth blwyddyn 5 a 6 i Theatr y Werin, Canolfan y Celfyddydau i wylio Sioe Arad Goch. Roedd y sioe wedi'u pherfformio heb eiriau a mwynheuodd pob un o'r plant. Sioe ddiddorol iawn am ffoaduriaid a choed yn tyfu oedd. Gobeithio cawn ni gyfle i weld sioe arall cyn bo hir. Gan Seren a Gwennan.

Aeth blwyddyn 3 a 4 draw i Ysgol Penrhyn-coch i wylio drama yn ystod wythnos Agor Drysau. Roedd y sioe cerdd o gartref yn ddiddorol iawn. Roeddwn i wedi mwynhau. Roedd y sioe yn hudolus. Gan Sara Mair.

Fel rhan o ŵyl Agor Drysau aeth plant Blwyddyn 1 a 2 i'r Stiwdio yng Nghanolfan y Celfyddydau i wylio sioe 'A seed story'. Roedd yn braf gwylio perfformiad unigryw a chael ymuno ar adegau. Ar y diwedd cafodd y plant hedyn i blannu....Tybed beth fydd yn tyfu?

**Wythnos Ryngwladol**
Dysgodd Dosbarth 1 am Frasil. Erbyn hyn, maent yn gallu adrodd nifer o ffeithiau am y wlad a dangosodd brwdfrydedd wrth ddysgu am bêl-droed y wlad, cofgolofn Iesu a'r goedwig law trofannol. Gwlad dosbarth 2 eleni oedd Yr Eidal. Roedd bwrlwm yn y dosbarth yn chwilio ffeithiau am y wlad yn enwedig y bwydydd.

**Dydd Gŵyl Ddewi**
Ni chollon ni'r cyfle i ddathlu ein nawddsant er bod Dydd Gŵyl Ddewi wedi bod dros hanner tymor eleni. Cafodd y plant y cyfle i wisgo yn y wisg draddodiadol neu fodern. Cafwyd amrywiaeth o weithgareddau Cymreig trwy gydol y dydd.



**Eisteddfod yr Urdd**
Mwynheuodd y plant gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd eleni eto. Aeth sawl plentyn i'r rhagbrofion i ganu ac adrodd gydag ambell un yn gwneud y ddwy. Hefyd, roedd hi'n brofiad arbennig i berfformio ar lwyfan Canolfan y Celfyddydau. Cafodd y côr lwyddiant yn cael y 3ydd safle, ond er bod y parti llefaru heb gael safle eleni yn adrodd 'Parti Llefaru Gorau'r Byd', roeddem i gyd yn falch iawn ohonynt. Diolch o galon i Mrs Anne Mason Davies am hyfforddi'r grŵp ac i Mr Ifan Davies am stiwardio ar ein rhan ni. Diolch yn fawr iawn.







**Diwrnod y llyfr**
Gwelwyd amrywiaeth eang o wisgoedd ar ddiwrnod y llyfr. Gwisgais i fel Lavender Brown o'r gyfres Harry Potter. Roedd llawer o weithgareddau cyffrous yn digwydd yn y dosbarthiadau. Ysgrifennais i adolygiad llyfr a chreu chwilair. Gan Phoebe.

**Holi**
Ar ôl pythefnos o ddysgu am liwiau, creu cerddi ac astudio stori Elfed, dysgodd y plant am yr ŵyl Holi. Roedd lliwiau pob man wrth greu darluniau lliwgar, deniadol iawn.

**Masnach Deg**
Eleni, agorodd y Cyngor Ysgol stondin Masnach Deg. Roedd yn brofiad arbennig o gynnal siop a hybu cynnyrch masnach deg yn yr Ysgol. Roedd llawer o bethau yn boblogaidd iawn fel craceri, bisgedi, siocled, coffi a the. Doedd y sebon ddim yn boblogaidd iawn.

**Trwynau Coch**
Roeddem wedi gwerthu trwynau coch yn yr Ysgol. Roeddent mor boblogaidd doedd dim ar ôl erbyn yr ail ddiwrnod o werthu.

**Trawsgwlad**
Aeth Issy Cooper, Efanna Lewis ac Ana Joyce am gystadlu ar ran Ceredigion yn Trawsgwlad Dyfed ar gaeau'r Sioe yng Nghaerfyrddin. Rhedon nhw fel y gwynt er gwaetha'r tywydd gwael. Pob lwc i Ana Joyce sydd wedi mynd trwyddo i'r rownd Genedlaethol.

# Tasg y Tincer


Elinor

Diolch i bawb fu'n brysur yn lliwio'r parseli hyfryd, oedd yn llawn anrhegion Sul y Mamau … gobeithio! Dyma'r enwau: Wil Elias Jones, Capel Seion; Elinor Jenkins, Y Borth; Ned Williams, Penrhyn-coch; Math Lewys Roberts a Lois Martha Roberts, Bont-goch; Mari Riberts, Penrhyn-coch; Dylan Rhys Herron, Bow Street.


Dy enw di, Elinor, ddaeth o'r het. Llongyfarchiadau mawr! Daliwch ati, bawb – mae eich lluniau i gyd yn werth eu gweld.

Wel, mae tymor ysgol arall wedi dod i ben ac mae'n gyfnod gwyliau, ond dwi'n siŵr fod sawl un ohonoch chi'n brysur. Mae'n adeg wyna, on'd yw hi, ac yn adeg troi at yr ardd, ac adeg chwarae pêl-droed tu allan a mentro ar y trampolîn. Ac wrth gwrs mae'n adeg y Pasg, er bod y siopau'n llawn wyau siocled o bob lliw a llun ers misoedd! Mae'r wy yn arwydd o fywyd newydd, a neges fawr y Pasg yw bod Iesu Grist wedi marw ar y groes, ond ry'n ni'n dathlu ei fod wedi dod yn fyw eto. Mae hen hen stori'n dweud os gwnewch chi gadw wy sy'n cael ei ddodwy ar ddydd Gwener y Groglith am fil o flynyddoedd (ych-a-fi!!), bydd y melynwy'n troi'n ddiamwnt! A beth am yr hen goel fod person sy'n darganfod dau felynwy o fewn yr un wy ar Gwener y Groglith yn troi'n gyfoethog iawn? Beth am edrych ar y we am draddodiadau'r Pasg mewn gwledydd eraill? A sut mae dweud 'Pasg Hapus' yn rhai o'r ieithoedd sy'n perthyn i'n hiaith ni? Bydd pobl Cernyw yn dweud 'Pask Lowen', a phobl Iwerddon yn dweud 'Beannachtaí na Cásca'. Chwiliwch y we am beth fydd pobl Llydaw a phobl yr Alban yn ei ddweud!

Y mis hwn, beth am liwio llun y wyau Pasg? Gobeithio mai un fel hyn fydda i'n ei gael!

Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Mai 1af.. Mwynhewch y gwyliau, a ta ta tan toc!

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 418 | Ebrill 2019